Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau a Phrotocolau Gorfodi – Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg

## Canllawiau ar gyfer swyddogion wrth orfodi darpariaethau ym Mhennod 1, Rhan 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, a Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

Mae'r ddogfen hon yn disodli 'Canllawiau a Phrotocolau Gorfodi – Mannau Di-fwg' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Mawrth 2007. Cyhoeddwyd y ddogfen honno i ategu'r dasg o roi Deddf Iechyd 2006 ("Deddf 2006") a Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 ('Rheoliadau 2007') ar waith.

Dylai swyddogion ddefnyddio'r canllawiau hyn i ategu'r dasg o roi Pennod 1, Rhan 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ('Deddf 2017') ar waith a Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 ('Rheoliadau 2020').

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG41940 ISBN digidol 978 1 80082 946 6

# Cynnwys


1. Pam cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol yn ymwneud â smygu mewn mannau cyhoeddus 3
2. Cefndir y ddeddfwriaeth hon 4
3. Diben y canllawiau 5
4. Trosolwg o'r ddeddfwriaeth a'r troseddau 6
5. Y dull cyffredinol 15
6. Arolygiadau 17
7. Asesu cydymffurfiaeth 19
8. Camau gorfodi 23
9. Protocol cwyno 26

Atodiad 1: Diffiniadau 27

Atodiad 2: Eithriadau 29

Atodiad 3: Gwahanol senarios 33

# 1. Pam cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol yn ymwneud â smygu mewn mannau cyhoeddus?

Cyn i Reoliadau 2007 gael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2007, smygu oedd yr achos ataliadwy mwyaf mewn perthynas â salwch, anabledd a marwolaethau cyn pryd yng Nghymru, gydag amcangyfrif o 6000 o farwolaethau'n gysylltiedig â smygu yng Nghymru bob blwyddyn. Amcangyfrifwyd y byddai rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith trwy gyfyngu ar smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, yn cynnwys tafarnau a gweithleoedd, yn atal mwy na 400 o farwolaethau y flwyddyn yn sgil clefyd y galon, canser, strôc a chlefyd anadlol ymhlith pobl yng Nghymru nad oeddynt yn smygu.

Mae Rheoliadau 2007 wedi cael effaith fawr ar nifer smygwyr a phobl a ddaw i gysylltiad â mwg ail law. Ond smygu yw prif achos marwolaethau cyn pryd yng Nghymru o hyd. Trwy gyflwyno Deddf 2017 a Rheoliadau 2020, mae Llywodraeth Cymru eisiau amddiffyn mwy o bobl rhag effeithiau mwg ail law a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau smygu.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus, yn ogystal â lleoliadau gofal awyr agored i blant, fod yn ddi-fwg. Bydd hyn yn lleihau cysylltiad plant â mwg ail law ac yn dadnormaleiddio'r arfer o smygu mewn mannau lle mae plant yn mynd yn aml ac mewn mannau sy'n gysylltiedig â darparu gofal iechyd. Ymhellach, bydd Rheoliadau 2020 yn cael gwared yn raddol â smygu mewn ystafelloedd gwely mewn gwestai a lletyau gwyliau hunanddarpar (erbyn 1 Mawrth 2022), ystafelloedd smygu mewn Unedau Iechyd Meddwl (erbyn 1 Medi 2022) a gwneud newidiadau bychain i bwy all ddefnyddio ystafelloedd smygu pwrpasol mewn cartrefi gofal i oedolion a hosbisau ioedolion. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y bobl hynny sy'n gweithio yng nghartrefi pobl eraill hefyd yn gallu gweithio mewn amgylchedd di-fwg yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau mewn anheddau.

Mae canllawiau llawn ar Ddeddf 2017 a Rheoliadau 2020 wedi'u darparu ar wefan Llywodraeth Cymru:
**llyw.cymru/deddfwriaeth-ddi-fwg-canllawiau-ar-y-newidiadau-o-fis-mawrth-2021-html**

# 2. Cefndir y Ddeddfwriaeth

Daeth tystiolaeth a luniwyd yn 1998 a 2004 gan y Pwyllgor Gwyddonol ar Dybaco ac Iechyd i'r casgliad fod dod i gysylltiad â mwg ail law yn risg sylweddol i iechyd y cyhoedd. Ymhellach, darganfu Arolwg Iechyd Cymru 2004/5 fod tri chwarter yr oedolion yng Nghymru nad oeddynt yn smygu yn dod i gysylltiad rheolaidd â mwg tybaco ail law. Ar ôl ymgynghori'n eang, defnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y pwerau ym Mhennod 1 Rhan 1 Deddf 2006 i roi Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 ar waith.

Mae cyfraddau smygu yng Nghymru wedi gostwng ers i Reoliadau 2007 gael eu cyflwyno, a hefyd mae'r cysylltiad â mwg ail law wedi lleihau. Ond mae angen gwneud mwy i leihau nifer yr achosion o smygu ymhlith oedolion, ynghyd â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau smygu a lleihau mwy ar gysylltiad pobl â mwg ail law.

Mae Pennod 1 Rhan 3 o Ddeddf 2017 a Rheoliadau 2020 yn dod â mangreoedd, nad oeddynt o'r blaen yn ddi-fwg, o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth. Y rhain yw tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion, meysydd chwarae cyhoeddus a lleoliadau gofal awyr agored i blant. Mae Rheoliadau 2020 yn dirymu rhai o'r eithriadau a grëwyd o'r blaen a oedd yn caniatáu smygu mewn mangreoedd. Mae Adrannau 13 ac 14 o Ddeddf 2017 hefyd yn galluogi dynodi mangreoedd di-fwg ychwanegol, os yw Gweinidogion Cymru'n fodlon y byddai gwneud hynny'n debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru.

.

# 3. **Diben y Canllawiau**

Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac y cytunwyd arnynt gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ategu'r dasg o roi Rheoliadau 2007 ar waith. Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno cyngor yn ymwneud â'r gofynion newydd ym Mhennod 1, Rhan 3 Deddf 2017 a Rheoliadau 2020, ac maent yn esbonio'r darpariaethau gorfodi a'r cwmpas estynedig. Bydd y canllawiau hyn, ynghyd â'r protocolau a gynhwysir ynddynt, yn cael eu diwygio ar sail profiad yn y dyfodol ac ar sail unrhyw newidiadau dilynol yn y ddeddfwriaeth.

Er mwyn sicrhau y rhoddir dull cyson ar waith o ran dehongli a gorfodi'r ddeddfwriaeth ledled Cymru, disgwylir y bydd yr holl swyddogion gorfodi awdurdodedig yn cael eu tywys gan y canllawiau hyn ac y byddant yn dilyn y canllawiau hyn wrth fynd ati i orfodi'r ddeddfwriaeth ddi-fwg, ar y cyd â pholisi gorfodi eu hawdurdod lleol eu hunain.

Caiff y term cyffredinol 'swyddog gorfodi' ei ddefnyddio wrth gyfeirio at holl swyddogion awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn swyddi gorfodi yng nghyswllt y ddeddfwriaeth ddi-fwg, yn cynnwys Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Safonau Masnach, Swyddogion Trwyddedu a swyddogion eraill sydd wedi'u hyfforddi'n briodol gan yr awdurdod lleol.

# 4. Trosolwg o'r ddeddfwriaeth a'r troseddau

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â mangreoedd a cherbydau di-fwg yng Nghymru yn cynnwys:

i. Pennod 1 o Ran 3 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
ii. Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020.

Mae Deddf 2017 a Rheoliadau 2020 felly'n disodli'r drefn ddi-fwg a oedd ar waith yng Nghymru, cyn 1 Mawrth 2021.

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol wedi'i diddymu gan Ddeddf 2017 a Rheoliadau 2020:

- Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf 2006 ("Mangreoedd, Mannau a Cherbydau Di-fwg") mewn perthynas â Chymru. Yr unig ran o Ddeddf Iechyd 2006 a fydd yn parhau mewn grym yw Adran 13, Pŵer i ddiwygio oedran ar gyfer gwerthu tybaco
- Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007
- Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) (Diwygio) 2015
- Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) (Diwygio) 2016.

## Mannau a Mangreoedd Di-fwg sydd ar agor i'r cyhoedd

Yn achos gweithleoedd a mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd ac sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig, rhaid iddynt fod yn ddi-fwg.

## Mangreoedd Di-fwg

Mangreoedd di-fwg yw'r mangreoedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig, ac sydd ar agor i'r cyhoedd neu a ddefnyddir fel gweithle gan fwy nag un person.

Ceir dwy elfen o ran gwirio pa fangreoedd a fydd yn fangreoedd di-fwg at ddibenion y ddeddfwriaeth. Yn gyntaf, rhaid i'r fangre fod ar agor i'r cyhoedd neu rhaid iddi gael ei defnyddio fel gweithle gan fwy nag un person; ac yn ail, rhaid i'r fangre fod yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

- **Ar agor i'r cyhoedd:** Bydd mangreoedd ar agor i'r cyhoedd os oes modd i'r cyhoedd neu ran arbennig o'r cyhoedd gael mynediad iddynt, pa un a fydd hynny trwy wahoddiad ai peidio, a pha un a fydd yn golygu talu ai peidio. Oni chaiff y mangreoedd eu defnyddio hefyd fel gweithle (gweler isod), dim ond pan fyddant ar agor i'r cyhoedd y bydd yn ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg. Gweler hefyd yr eithriad cyfyngedig yn ymwneud â thiroedd ysgolion.
- **Fe'u defnyddir fel gweithle:** Bydd gweithleoedd yn ddi-fwg os cânt eu defnyddio gan fwy nag un person (hyd yn oed os bydd y bobl dan sylw yn gweithio yno ar wahanol adegau, neu'n gweithio yno'n ysbeidiol yn unig), neu os oes modd i'r cyhoedd fynd yno er mwyn ceisio neu dderbyn nwyddau neu wasanaethau gan y bobl sy'n gweithio yno. Rhaid i weithleoedd o'r fath fod yn ddi-fwg drwy'r amser.

- **Defnydd rhannol o fangreoedd:** Os mai rhan o'r fangre yn unig a ddefnyddir fel gweithle, neu os mai rhan ohoni yn unig sydd ar agor i'r cyhoedd, dim ond i'r graddau hynny y bydd yn ofynnol i'r fangre fod yn ddi-fwg, ac eithrio rhannau cyffredin mewn anheddau a ddefnyddir gan y meddianwyr, y cyhoedd neu'r gweithwyr – yn achos mannau o'r fath, rhaid iddynt fod yn ddi-fwg yn ystod y cyfnod y gwneir defnydd deublyg ohonynt.
- **'Caeedig' a 'sylweddol gaeedig':** Caiff y diffiniadau o 'caeedig' neu 'sylweddol gaeedig' a 'nad ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig' eu nodi yn Rheoliad 3 Rheoliadau 2020 (gweler Atodiad 1). Yn syml, mae caeedig neu sylweddol gaeedig yn golygu mangreoedd a chanddynt do, ac agoriadau sy'n llai na 50% o arwynebedd y wal, a all gynnwys unrhyw strwythur arall sy'n rhan o berimedr y strwythur.

## Cerbydau di-fwg

Roedd Adran 5 Deddf 2006 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio rheoliadau sy'n amodi y dylai cerbydau fod yn ddi-fwg – gyda 'cerbydau' yn golygu cerbydau o bob math, yn cynnwys trenau, bysiau, cychod neu longau, awyrennau a hofrenfadau. Roedd Rheoliad 4 Rheoliadau 2007 yn amodi y dylai cerbyd caeedig fod yn ddi-fwg os caiff ei ddefnyddio am y rhesymau canlynol:

- I gludo aelodau o'r cyhoedd, neu ran arbennig o'r cyhoedd (pa un a fydd hynny am dâl neu ar log, ai peidio).
- At ddibenion gwaith gan fwy nag un person (hyd yn oed os bydd y bobl dan sylw yn gweithio ar wahanol adegau, neu'n ysbeidiol).

Mae Deddf 2017 a Rheoliadau 2020 wedi disodli gofynion Deddf 2006 a Rheoliadau 2007. Mae adran 15 Deddf 2017 a Rheoliadau 15, 16 ac 17 Rheoliadau 2020 yn nodi'r manylion ond yn hanfodol, bydd y gofynion sydd eisoes ar waith yn parhau. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n ofynnol o hyd i gerbydau caeedig a ddefnyddir at ddibenion gwaith gan fwy nag un person, neu i gludo aelodau'r cyhoedd, fod yn ddi-fwg bob amser. Mae'n rhaid gosod arwyddion 'Dim Smygu' ac mae'r heddlu yn dal i fod yn gyfrifol am orfodi.

Bydd hi hefyd yn dal i fod yn erbyn y gyfraith i smygu mewn cerbyd preifat sy'n cludo plentyn (person o dan 18). Nid oes angen arwyddion 'Dim Smygu' gan ei fod yn gerbyd preifat ac mae'r heddlu'n dal i fod yn gyfrifol am orfodi.

Mae'r gofynion newydd wedi'u nodi yn Rheoliad 15 2(a). Mae'r rhain yn ymestyn y gofynion di-fwg i gwmpasu pobl sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau a dalwyd amdanynt neu'n wirfoddol i berson arall mewn cerbyd. Nid oedd y gofynion di-fwg blaenorol yn cwmpasu'r cerbydau hyn gan nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion gwaith neu drafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd cerbyd neu ran o gerbyd yn gaeedig os caiff ei orchuddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan do (heb gynnwys to sydd wedi'i gadw o'r neilltu'n gyfan gwbl, fel na fydd yn gorchuddio unrhyw ran o'r cerbyd lle gall pobl deithio). Bydd cerbydau di-fwg, ac eithrio'r rhai a nodir yn Rheoliadau 2020, yn ddi-fwg drwy'r amser.

Dyletswydd i atal smygu mewn cerbyd di-fwg. Yn rhinwedd Rheoliad 17 Rheoliadau 2020, mae'r ddyletswydd i atal smygu mewn cerbyd di-fwg yn gorwedd gyda'r gyrrwr, y gweithredwr neu'r sawl sy'n gysylltiedig â rheoli'r cerbyd di-fwg.

## Cerbydau nad yw’r gofynion di-fwg yn berthnasol iddynt

Nid yw’r gofynion di-fwg yn berthnasol i gerbydau preifat, ac eithrio pan gânt eu defnyddio yn y modd a nodir yn Rheoliad 15 Rheoliadau 2020. Gellir gweld y diffiniad o ‘cerbyd preifat’ yn Atodiad 1.

O ran pa reoliadau y gellir eu gwneud dan Ddeddf Llongau Masnach 1995 (mewn perthynas â diogelwch ac iechyd ar longau), mae llongau neu hofrenfadau y tu allan i gwmpas mesurau rheoli’r ddeddfwriaeth. At y dibenion hyn, caiff y diffiniad statudol o long ei nodi yn adran 313(1) Deddf Llongau Masnach 1995, sef bod llong yn cynnwys pob disgrifiad o lestr a ddefnyddir i fordwyo.

Nid yw’r ddeddfwriaeth yn berthnasol i awyrennau.

## Tiroedd Ysbytai Di-fwg

Mae Adran 11 Deddf 2017 yn ei gwneud hi’n ofynnol i diroedd holl ysbytai’r GIG a phob ysbyty annibynnol yng Nghymru fod yn ddi-fwg. Rhestrir y gofynion penodol yn rheoliadau 11 ac 12 Rheoliadau 2020.

Mae i ‘ysbyty’ yr ystyr a nodir yn adran 206 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae tiroedd ysbytai yn cynnwys yr holl diroedd sy’n cyd-ffinio â’r ysbyty, neu a ddefnyddir neu a feddiannir gan yr ysbyty, ac nad ydynt yn gaeedig neu’n sylweddol gaeedig.

Gall y sawl sy’n rheoli’r ysbyty ddynodi man o fewn tir yr ysbyty lle caniateir smygu (y ‘Man Smygu Dynodedig’), a gall bennu pwy a all ddefnyddio’r man dynodedig hwn (‘personau â chaniatâd’). Gweler Atodiad 1 i gael diffiniad o ‘Man Smygu Dynodedig’ a ‘personau â chaniatâd’.

Mae’r ddyletswydd i atal neu reoli smygu ar diroedd ysbytai yn gorwedd gyda’r sawl sy’n rheoli neu sy’n gysylltiedig â rheoli tir yr ysbyty, ac mae’n ofynnol i’r person hwnnw gymryd camau rhesymol i atal pobl sy’n smygu yno rhag gwneud hynny.

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am orfodi’r darpariaethau di-fwg. Gweler yr adran troseddau i gael manylion am droseddau, amddiffyniadau a chosbau.

## Tiroedd Ysgolion Di-fwg

Mae adran 10 Deddf 2017 yn ei gwneud hi’n ofynnol i diroedd ysgolion fod yn ddi-fwg. Rhestrir y gofynion penodol yn rheoliadau 10 ac 12 Rheoliadau 2020. Caiff pob ysgol yng Nghymru a chanddi dir ysgol ei chynnwys o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth, yn cynnwys ysgolion a gynhelir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion sefydledig ac ysgolion annibynnol.

Mae i ‘ysgol’ yr ystyr a nodir yn adran 4 Deddf Addysg 1996. Mae tiroedd ysgolion yn golygu’r ardaloedd hynny nad ydynt yn gaeedig neu’n sylweddol gaeedig ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf gan yr ysgol at ddibenion addysgol, chwaraeon neu hamdden.

Yn achos tiroedd ysgolion sy’n cyd-ffinio â’r ysgol neu sydd wrth ymyl yr ysgol, bydd yn ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg pan fydd yr ysgol neu’r tir yn cael eu defnyddio ar gyfer addysg neu ofal plant. Yn achos tiroedd ysgolion nad ydynt yn cyd-ffinio â’r ysgol, e.e. pan fydd ffordd yn eu gwahanu, bydd yn ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg pan ddefnyddir y tir neu unrhyw ran ohono ar gyfer addysg neu ofal plant.

Pan fo ysgolion yn darparu llety preswyl, gall y sawl sydd wrth y llyw ddynodi man o fewn tir yr ysgol lle caniateir smygu (y ‘Man Smygu Dynodedig’), a gall bennu pwy a all ddefnyddio’r man dynodedig hwn

(‘personau â chaniatâd’). Gweler Atodiad 1 i gael diffiniad o ‘Man Smygu Dynodedig’ a ‘personau â chaniatâd’.

Mae’r ddyletswydd i atal neu reoli smygu ar diroedd ysgolion yn gorwedd gyda’r sawl sy’n rheoli neu sy’n gysylltiedig â rheoli tir yr ysgol, ac mae’n ofynnol i’r person hwnnw gymryd camau rhesymol i atal pobl sy’n smygu yno rhag gwneud hynny.

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am orfodi’r darpariaethau di-fwg. Gweler yr adran troseddau i gael manylion am droseddau, amddiffyniadau a chosbau.

## Meysydd Chwarae Cyhoeddus Di-fwg

Mae Adran 12 Deddf 2017 yn ei gwneud hi’n ofynnol i bob maes chwarae cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi-fwg. Y meysydd chwarae cyhoeddus sy’n berthnasol i’r gofynion yw’r meysydd chwarae hynny sy’n gysylltiedig ag awdurdodau lleol – mae hyn yn golygu bod y meysydd chwarae’n cael eu rheoli neu’n cael eu cynnal a’u cadw gan awdurdodau lleol neu gynghorau cymuned.

Rhaid i’r maes chwarae fod yn ardal awyr agored (nid yn gaeedig neu’n sylweddol gaeedig), rhaid iddo fod wedi’i gynllunio neu ei addasu i gael ei ddefnyddio gan blant, a rhaid iddo gynnwys o leiaf un cyfarpar maes chwarae – mae cyfarpar maes chwarae yn cynnwys siglen, pwll tywod, si-so neu ramp ac ati, ond nid yw’n cynnwys cyfarpar gyredig, fel cyfarpar a gaiff ei yrru gan fotor.

Mae’n ofynnol i feysydd chwarae fod yn ddi-fwg trwy’r amser o fewn terfyn y maes chwarae, pa un a fydd plant yno ai peidio. Gall terfynau meysydd chwarae fod yn ffensys pren neu fetel, yn llwyni neu’n unrhyw rwystr ffisegol o fath arall. Pan na cheir rhwystr ffisegol, caiff yr ardal ddi-fwg ei diffinio fel bod 5 metr oddi wrth unrhyw gyfarpar chwarae.

Mae’r ddyletswydd i atal neu reoli smygu ar feysydd chwarae cyhoeddus yn gorwedd gyda’r sawl sy’n rheoli neu sy’n gysylltiedig â rheoli’r maes chwarae cyhoeddus, ac mae’n ofynnol i’r person hwnnw gymryd camau rhesymol i atal pobl sy’n smygu yno rhag gwneud hynny.

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am orfodi’r darpariaethau di-fwg. Gweler yr adran troseddau i gael manylion am droseddau, amddiffyniadau a chosbau.

## Lleoliadau gofal plant awyr agored di-fwg

Mae adran 9 ac adrannau 6(2) a (3) Deddf 2017 yn ei gwneud hi’n ofynnol i leoliadau gofal awyr agored, nad ydynt yn gaeedig neu’n sylweddol gaeedig, fod yn ddi-fwg. “Lleoliadau gofal awyr awyr agored i blant” yw ardaloedd awyr agored y mangreoedd hynny sydd wedi’u cofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ac sy’n fangreoedd sy’n darparu gofal dydd neu wasanaeth gwarchod plant i blentyn neu blant o dan 12 oed.

Dim ond yn ystod y cyfnod y defnyddir y fangre at ddibenion gwarchod plant neu ofal dydd y bydd yn ofynnol i’r lleoliadau gofal awyr agored fod yn ddi-fwg. Pan fydd gwarchodwr plant yn darparu gwasanaethau yn ei gartref ei hun, bydd yn ofynnol i ardal awyr agored y cartref fod yn ddi-fwg os bydd un neu fwy o blant yn yr ardal awyr agored.

Ni cheir unrhyw ofyniad i arddangos arwyddion ‘Dim Smygu’ mewn lleoliadau gofal plant awyr agored, oni bai y bydd y darparwr gofal yn dymuno gwneud hynny.

## Arwyddion

Mae’r cyhoedd yn gyfarwydd ag arwyddion ‘Dim Smygu’ a ddefnyddir i bennu ardaloedd mae’n ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg.

Mae Rheoliadau 2020 yn nodi bod dau grŵp o arwyddion 'Dim Smygu', sef:

- arwyddion yn dangos darlun graffig o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch yn croesi symbol y sigarét
- arwyddion yn dangos darlun graffig o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch yn croesi symbol y sigarét **yn ogystal â** 'thestun rhybudd priodol'.

**Arwyddion smygu â darlun graffig**

Ni cheir unrhyw ofynion o ran maint, lliw na thestun rhybudd yr arwyddion Yr unig ofyniad yw y dylai'r arwydd gynnwys darlun graffig clir o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch yn croesi symbol y sigarét.

**Mannau di-fwg lle mae'n ofynnol arddangos arwydd graffig**

**Mangreoedd –** mae'n ofynnol i bob mangre ddi-fwg arddangos o leiaf un arwydd 'Dim Smygu'. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi ble y dylid arddangos yr arwydd, ond rhaid i bobl sy'n dod i mewn i'r fangre allu ei weld.

Gellir lawrlwytho templed oddi ar **llyw.cymru/ysmygu**, enghraifft yn unig yw'r templed hwn. Bydd cynlluniau eraill sy'n bodloni'r disgrifiad uchod yn dderbyniol.

**Cerbydau –** mae'n ofynnol i gerbydau di-fwg a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion gwaith, neu gerbydau di-fwg sy'n cludo'r cyhoedd, arddangos yr arwydd graffig. Fel gyda mangreoedd di-fwg, ni nodir ble y dylid arddangos yr arwydd, ond dylai fod mewn lle amlwg er mwyn i ddefnyddwyr y cerbyd allu ei weld.

Gellir lawrlwytho templed oddi ar **llyw.cymru/ysmygu**, enghraifft yn unig yw'r templed hwn. Bydd cynlluniau eraill sy'n bodloni'r disgrifiad uchod yn dderbyniol.

Gweler Atodiad 2 i gael eithriadau i'r gofyniad i arddangos arwyddion Dim Smygu.

**Arwyddion 'Dim Smygu' â darlun graffig a 'thestun rhybudd priodol'**

Mae'n ofynnol i arwyddion 'Dim Smygu' â 'thestun rhybudd priodol' gael eu harddangos mewn tri lleoliad. Dylai'r arwyddion hyn fod yn weladwy i'r holl ddefnyddwyr; dylid eu harddangos mewn lle amlwg wrth neu gerllaw'r brif fynedfa i'r tiroedd; ac os ceir mwy nag un fynedfa, dylid arddangos arwyddion wrth bob un.

Dyma'r tri lleoliad lle mae'n ofynnol arddangos arwyddion 'Dim Smygu' â thestun rhybudd priodol:

1. Tiroedd ysbytai
2. Tiroedd ysgolion
3. Meysydd chwarae cyhoeddus.

Ym mhob achos, rhaid i'r arwyddion gynnwys y canlynol:

- Darlun graffig clir o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch yn croesi symbol y sigarét.
- Y testun rhybudd priodol sy'n berthnasol i'r fangre.

**Tiroedd ysbytai** – 'It is against the law to smoke in these hospital grounds/Mae ysmygu yn nhir yr ysbyty hwn yn erbyn y gyfraith'

**Tiroedd ysgolion** – 'It is against the law to smoke in these school grounds/Mae ysmygu yn nhir yr ysgol hon yn erbyn y gyfraith'

**Meysydd chwarae cyhoeddus â therfynau** – 'It is against the law to smoke in this playground/Mae ysmygu yn y maes chwarae hwn yn erbyn y gyfraith'

**Meysydd chwarae heb derfynau** – 'It is against the law to smoke within 5 metres of this play equipment/Mae ysmygu o fewn 5 metr i'r cyfarpar chwarae hwn yn erbyn y gyfraith'

Ni cheir unrhyw ofynion o ran maint, cynllun na lliw'r arwyddion.

Mae templedi wedi'u creu ar gyfer pob un o'r arwyddion ac mae'r rhain i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru **llyw.cymru/ysmygu**.

## Troseddau

Mae Tabl 1 yn crynhoi'r prif droseddau dan Ddeddf 2017 a Rheoliadau 2020, eu hamddiffyniadau cyfatebol a'r ddirwy uchaf pe bai rhywun yn cael ei ganfod yn euog.

| Trosedd | Amddiffyniad dan y Ddeddf | Y Ddirwy Uchaf |
|---|---|---|
| **Adran 5**<br>Mae person yn smygu mewn<br>(a) mangre di-fwg<br>(b) cerbyd di-fwg | **Adran 5(4)**<br>Gall person a gyhuddir gyda throsedd dan yr adran hon ei amddiffyn ei hun trwy ddangos nad oedd yn gwybod bod y fangre neu'r cerbyd dan sylw yn fangre neu'n gerbyd di-fwg, ac na ellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod hynny. | **Lefel 1**<br>£100<br>Gostyngiad i £75 |
| **Adran 6(6)**<br>Methu ag atal smygu mewn mangreoedd a cherbydau di-fwg.<br>Rhaid i'r sawl sy'n gysylltiedig â rheoli mangreoedd sy'n ddi-fwg:<br>• gweithleoedd (Adran 7)<br>• mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd (Adran 8)<br>• mangreoedd gofal dydd cofrestredig (Adran 9(3))<br>• gwarchodwyr plant mewn mangreoedd (Adran 6 (3) a (4))<br>• gymryd camau rhesymol i atal person rhag smygu yno.<br>Rhaid i yrrwr neu weithredydd cerbyd di-fwg sy'n ymwneud â rheoli'r cerbyd hwnnw gymryd camau rhesymol i achosi i berson sy'n smygu mewn cerbyd i beidio â gwneud hynny. | **Adran 6(7)**<br>Gall y sawl sydd wrth y llyw ddangos nad oedd yn gwybod bod y person dan sylw yn smygu ac na ellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod hynny. | Os bydd yn euog o drosedd, mae person yn atebol ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 4 (£2,500) ar y raddfa safonol. |

| Trosedd | Amddiffyniad dan y Ddeddf | Y Ddirwy Uchaf |
|---|---|---|
| **Adran 17(5)**<br>Methu arddangos arwydd.<br>Mae'n rhaid i berson sy'n meddiannu neu sy'n ymwneud â rheoli mangre (neu gerbyd) di-fwg sicrhau bod arwyddion yn cael eu harddangos yn y mangreoedd (a cherbydau) hynny yn unol â rheoliadau o dan yr is-adran hon. | **Adran 17(6)**<br>Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi'i gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon i ddangos:<br>(a) nad oedd y person yn gwybod, ac nad oedd disgwyl yn rhesymol iddo wybod, bod y fangre yn ddi-fwg (neu, os mai dyna'r achos, bod y lle neu'r cerbyd i'w drin fel lle di-fwg),<br>(b) nad oedd y person yn gwybod, ac nad oedd disgwyl yn rhesymol iddo wybod, nad oedd arwyddion sy'n cydymffurfio â gofynion yr adran hon yn cael eu harddangos yn unol â gofynion yr adran hon, neu<br>(c) ei bod hi'n rhesymol i'r person beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd ar unrhyw sail arall. | **Lefel 3**<br>£200<br>Gostyngiad i £150 |
| **Adran 6(6)**<br>Trosedd smygu mewn cerbyd lle mae yna blentyn yn bresennol. | Trosedd atebolrwydd lym, dim amddiffyniad yn y ddeddfwriaeth, byddai'n fater o ffaith.<br>Noder nad yw anwybodaeth o'r gyfraith yn amddiffyniad. | £100, gostyngiad i £75 |
| **Adran 24**<br>Rhwystro swyddogion<br>Person sy'n gwneud y canlynol:<br>• mynd ati'n fwriadol i rwystro swyddogion sy'n arfer eu swyddogaethau<br>• heb achos rhesymol, methu â rhoi i'r swyddog awdurdodedig y cyfleustra mae arno'i angen yng nghyswllt y gofynion dan Adran 23(1)<br>• methu â chydymffurfio â gofyniad dan Adran (23)(1)(b) neu (d) | Nid oes unrhyw amddiffyniad statudol i'w gael, ond byddai'n rhaid i'r erlynydd brofi'r canlynol hyd at y safon angenrheidiol:<br>• bod y rhwystro'n weithred fwriadol<br>• nad oedd unrhyw achos rhesymol i'w gael dros fethu â chyflwyno'r cyfleustra gofynnol. | **Lefel 3**<br>Os bydd yn euog o drosedd, mae person yn atebol ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 (£1,000) ar y raddfa safonol |

## Hysbysiadau Cosb Benodedig

Mae adran 27 Deddf 2017 yn rhoi disgresiwn i swyddogion gorfodi gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig yn ymwneud â throseddau dan adrannau 5(1) ac 17(5) y Ddeddf.

Mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhoi cyfle i berson ryddhau unrhyw atebolrwydd o ran ei erlyn am drosedd, a hynny trwy dalu cosb benodedig. Gall swyddogion gorfodi gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig os credant fod person yn cyflawni neu wedi cyflawni trosedd dan adrannau Adrannau 5(1) neu 17(5) Deddf 2017.

Mae atodlen 1 Deddf 2017 yn pennu'r Cynllun Cosbau Penodedig sy'n berthnasol. Rhaid i'r Hysbysiad Cosb Benodedig wneud y canlynol:

- nodi â pha drosedd mae'n gysylltiedig, a nodi manylion rhesymol yn ymwneud â'r amgylchiadau yr honnir eu bod wedi arwain at y drosedd
- nodi enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi yr oedd y swyddog awdurdodedig yn gweithredu ar ei ran pan gyflwynwyd yr hysbysiad
- nodi swm y gosb a'r cyfnod ar gyfer ei dalu
- nodi'r swm gostyngedig a'r cyfnod ar gyfer ei dalu
- nodi'r canlyniadau pe na bai'r arian yn cael ei dalu o fewn y cyfnod talu
- nodi enw a chyfeiriad y sawl y dylid talu'r arian iddo (sef y cyngor lleol ar gyfer yr ardal y cyflawnwyd y drosedd honedig ynddi, neu berson sy'n gweithredu ar ran y cyngor hwnnw)
- nodi'r dull neu'r dulliau y gellir eu defnyddio i dalu
- nodi enw a chyfeiriad y sawl y gellir anfon sylwadau ato yn ymwneud â'r hysbysiad (sef y cyngor lleol ar gyfer yr ardal y cyflawnwyd y drosedd honedig ynddi, neu berson sy'n gweithredu ar ran y cyngor hwnnw).

Caiff ffurf hysbysiadau cosb mewn perthynas â throseddau dan Ddeddf 2017 ei nodi yn Atodlen 1 Rheoliadau 2020.

Bydd swm llawn y gosb benodedig, a nodir yn yr hysbysiad, yn daladwy a rhaid ei dalu o fewn 29 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad. Bydd modd talu swm gostyngedig yn hytrach na'r swm llawn os telir yr arian o fewn cyfnod o 15 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad. (Os na fydd y diwrnod olaf yn syrthio ar ddiwrnod gwaith, gellir ymestyn y cyfnod ar gyfer talu'r swm gostyngedig i'r diwrnod gwaith nesaf.) Mae 'diwrnod gwaith' yn golygu unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl y banc yng Nghymru a Lloegr yn ôl Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. Dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau priodol i ddarparu ar gyfer amgylchiadau lle gallai swyddfeydd talu fod ar gau yn ystod y diwrnodau gwaith a ddiffinnir uchod.

Pe na bai person sydd wedi cael Hysbysiad Cosb Benodedig yn talu'r gosb benodedig erbyn diwedd y cyfnod 29 diwrnod, gall yr awdurdod gorfodi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person hwnnw mewn perthynas â'r drosedd mae'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn ymwneud â hi. Ni ellir cymryd camau cyfreithiol cyn diwedd y cyfnod a bennir ar gyfer talu'r gosb. Os caiff swm y gosb (neu'r swm gostyngedig, fel y bo'n briodol) ei dalu yn unol â'r hysbysiad cosb cyn diwedd y cyfnod talu, ni ellir cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person hwnnw mewn perthynas â'r drosedd mae'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn ymwneud â hi.

Gall derbynnydd yr hysbysiad cosb ofyn am gael ei rwymo mewn perthynas â'r drosedd


honedig. Gellir cyflwyno cais o'r fath trwy hysbysiad a'i roi i'r swyddog gorfodi cyn diwedd y cyfnod a bennir ar gyfer talu'r gosb, yn y modd a nodir yn Rhan 4 yr Hysbysiad Cosb Benodedig.

Yna, gall yr awdurdod gorfodi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person cyn diwedd y cyfnod a bennir ar gyfer talu'r gosb. Fodd bynnag, pe bai'r person dan sylw yn newid ei feddwl wedyn, ac yn talu'r gosb neu'r swm gostyngedig cyn diwedd y cyfnod talu perthnasol, ni ellir parhau â'r camau cyfreithiol.

Ni cheir unrhyw hawl i apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb Benodedig, ac eithrio'r hawl i ofyn am gael eich rhoi ar brawf am y drosedd honedig. Fodd bynnag, pe bai awdurdod gorfodi o'r farn na ddylai'r swyddog gorfodi fod wedi cyflwyno'r hysbysiad cosb, bydd modd iddo, trwy hysbysiad, dynnu'r hysbysiad cosb yn ôl. Wrth wneud hynny, rhaid i'r awdurdod ad-dalu unrhyw arian a dalwyd mewn perthynas â'r gosb, ac ni ellir cymryd camau cyfreithiol neu barhau â chamau cyfreithiol yn erbyn derbynnydd yr hysbysiad mewn perthynas â'r drosedd dan sylw.

### Yn Ffigur 1 ceir crynodeb o'r broses Hysbysiadau Cosb Benodedig

> Mae gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu bod trosedd wedi'i chyflawni dan Adran 17(5) (arwyddion) neu Adran 5(1) (smygu mewn man neu gerbyd lle na chaniateir smygu) Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ac
>
> Mae'n arfer disgresiwn i ddelio â'r drosedd trwy gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig (HCB) i'r person dan sylw.



# 5. **Y Dull Cyffredinol**

Mae gan swyddogion gorfodi mewn awdurdodau lleol hanes o weithio'n agos gyda busnesau a hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth, gan ddefnyddio elfennau fel addysg, cyngor, eiriolaeth a dulliau perswadio i hyrwyddo'r syniad mai cydymffurfio yw'r ffordd orau o weithredu. Yr unig adeg y bydd swyddogion gorfodi'n troi at ddefnyddio camau gorfodi ffurfiol yw pan fydd difrifoldeb yr amgylchiadau neu'r ymddygiad troseddol yn golygu bod camau o'r fath yn briodol a bod modd eu cyfiawnhau. Mewn amgylchiadau o'r fath, fel arfer fe fydd yna ddeialog flaenorol gyda'r sawl a gyhuddir, lle rhoddwyd pob cyfle iddo gydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'r un dull a'r un sgiliau wedi cael eu defnyddio wrth reoli smygu mewn mannau cyhoeddus, a byddant yn parhau i gael eu defnyddio yn y dyfodol. Diben y ddeddfwriaeth yw diogelu iechyd gweithwyr a'r cyhoedd. Ers i Reoliadau 2007 ddod i rym (rheoliadau sydd wedi cael eu diddymu bellach), mae'r cyfraddau cydymffurfio wedi bod yn uchel, ond cydnabyddir y bydd yna achosion pan fydd angen mynd ati i orfodi'r ddeddfwriaeth o bosibl. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r canllawiau hyn sicrhau bod dull teg, cyson, clir a chymesur yn cael ei roi ar waith ym mhob achos.

Ni ddylai'r cysylltiad cyntaf â'r person gynnwys unrhyw wrthdaro, a dylid canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r rhesymau sydd wrth wraidd y gwaharddiad, a sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth. Mae profiad yn dangos bod y cyhoedd yn gefnogol iawn i'r ddeddfwriaeth a bod busnesau'n cydymffurfio i raddau helaeth iawn.

Aethpwyd ati i gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth gyda busnesau a'r cyhoedd ynglŷn â chyflwyno Rheoliadau 2007, a bydd gweithgareddau o'r fath yn cael eu cynnal ynglŷn â rhoi Rheoliadau 2020 ar waith.

Prif ddiben y darpariaethau dim smygu yn Neddfau 2006 a 2017 yw diogelu iechyd gweithwyr a'r cyhoedd rhag effeithiau niweidiol mwg ail law. Mae profiad wrth reoli smygu mewn mannau cyhoeddus yn awgrymu bod camau o'r fath yn annog smygwyr i geisio rhoi'r gorau i smygu. Felly, caiff swyddogion gorfodi eu hannog i hyrwyddo'r arfer o roi'r gorau i smygu pa bryd bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau y gall y gwaharddiad ar smygu mewn mannau cyhoeddus gael yr effaith fwyaf bosibl ar wella iechyd y cyhoedd. Gall y gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu gynnig y canlynol:

- Cyngor cyfrinachol un-i-un gan gynghorwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.
- Arweiniad ar roi'r gorau i smygu a help gyda phroblemau cysylltiedig.
- Taflenni gwybodaeth yn sôn am sut i fynd ati a sut i gynllunio a pharatoi i roi'r gorau i smygu.
- Gwybodaeth am sut i gael gafael ar gymorth gan **helpafiistopio@wales.nhs.uk** sef gwasanaeth a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig arweiniad, cyngor, cwnsela un-i-un a therapi grŵp, a gellir cysylltu'n uniongyrchol ag ef trwy ffonio 0808 252 8307.

## Rôl sefydliadau gorfodi eraill

### Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn gweithio mewn modd adeiladol gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo pa mor effeithiol yw polisïau smygu Llywodraeth Cymru. Bydd arolygwyr yr HSE yn cynorthwyo awdurdodau lleol trwy wneud y canlynol:

- tynnu sylw cyflogwyr at enghreifftiau amlwg o dorri'r ddeddfwriaeth
- os yn briodol, rhoi gwybod i awdurdodau lleol am achosion difrifol o dorri'r ddeddfwriaeth.

Bydd yr HSE yn parhau i annog cyflogwyr i roi polisïau dim smygu ar waith lle rhoddir blaenoriaeth i anghenion pobl nad ydynt yn smygu ac sy'n dymuno peidio ag anadlu mwg tybaco.

### Heddluoedd

Nid yw'r heddlu'n cymryd yr awenau o ran gorfodi rheoliadau di-fwg, ac eithrio mewn perthynas â rheoliad 15(3)(b) Rheoliadau 2020 – sef cerbydau a ddefnyddir at ddibenion cymdeithasol, dibenion domestig neu ddibenion preifat o fath arall lle mae plentyn yn bresennol. Ond bydd heddluoedd yng Nghymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol pe bai unrhyw anhrefn yn cael ei rhagweld neu'n digwydd yn ystod gwaith gorfodi.

# 6. **Arolygiadau**

Yn achos arolygiadau a gynhelir gan swyddogion gorfodi, byddant naill ai'n arolygiadau rhagweithiol a fydd yn anelu at gynghori busnesau a chadarnhau y cydymffurfir â gofynion y ddeddfwriaeth, neu byddant yn arolygiadau ymatebol, mewn ymateb i gwynion neu ymholiadau.

Dylai awdurdodau lleol ddyfeisio dull ar gyfer llunio rhestr o fangreoedd lle gellir cynnal arolygiadau rhagweithiol. Dylai awdurdodau lleol gynnwys rhai arolygiadau fel rhan o'u gwaith cydymffurfio rhagweithiol, e.e. arolygiadau iechyd a diogelwch neu arolygiadau neu ymweliadau hylendid bwyd.

Yn y lle cyntaf, dylai'r arolygiadau ganolbwyntio ar y mangreoedd canlynol:

- Mangreoedd sydd ar agor i nifer helaeth o bobl (er enghraifft, gellir esgor ar effaith fwy mewn perthynas â diogelu iechyd trwy ymweld â chlwb nos yn hytrach na swyddfa fach).
- Mangreoedd nad oes ganddynt fesurau rheoli yn barod, h.y. gwerth cyfyngedig yn unig a geir wrth ymweld â mangreoedd a chanddynt bolisïau dim smygu ar waith eisoes.
- Mangreoedd nad yw swyddogion gorfodi yn arfer ymweld â nhw fel rhan o'u harolygiadau rheolaidd dan ddeddfwriaeth arall.

Mae datblygu dull seiliedig ar risg wedi esblygu o ganlyniad i roi Rheoliadau 2007 ar waith a dylid ymestyn hyn wrth roi Rheoliadau 2020 ar waith, yn seiliedig ar y canlynol:

- Yr hyder yn y dulliau rheoli.
- Hanes o ran cydymffurfio â gofynion eraill.
- Cwynion a dderbynnir.

Gall swyddogion gorfodi gynnal nifer o wahanol fathau o arolygiadau'n ymwneud â mesurau rheoli smygu – ceir enghreifftiau isod. Dylid nodi nad yw'r opsiynau a restrir yn gydanghynhwysol a dylai'r swyddogion ddewis yr opsiynau sydd fwyaf priodol ym mhob achos, sef y cam gweithredu a fydd yn esgor ar y budd mwyaf i iechyd y cyhoedd ac a fydd yn sicrhau diogelwch y swyddog gorfodi.

- **Arolygiad swyddogol –** bydd y swyddogion yn dweud pwy ydynt ac yn dangos manylion adnabod priodol i'r sawl sy'n rheoli'r fangre cyn mynd ati i asesu a gydymffurfir â gofynion y ddeddfwriaeth.
- **Arolygiad cudd –** bydd y swyddogion yn asesu a gydymffurfir â'r ddeddfwriaeth trwy wylio'r hyn sy'n digwydd o fewn y fangre, gan ddweud pwy ydynt wedyn a dangos manylion adnabod priodol i'r sawl sy'n rheoli'r fangre ar ddiwedd y cyfnod arsylwi.
- **Arolygiad cudd a gadael –** fel uchod, ond bydd y swyddogion gorfodi yn trafod canfyddiadau'r ymweliad gyda'r sawl sy'n rheoli'r fangre yn ddiweddarach, e.e. y diwrnod canlynol.

Dylid nodi nad oes yr un o'r troseddau dan Ddeddf 2006 na Deddf 2017 yn bodloni Prawf Troseddau Difrifol Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (dedfryd o garchar am 6 mis o leiaf ar ôl eich cael yn euog), felly mae'n bosibl na fydd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn cael ei chymeradwyo.

Ni ddylid rhoi diogelwch personol y swyddogion yn y fantol wrth fynd i'r afael â gwaith gorfodi; dylid cydnabod hyn yn ffurfiol ym mholisi iechyd a diogelwch cyfredol pob awdurdod lleol. Mewn rhai amgylchiadau, e.e. yn ystod y nos neu er diogelwch y swyddogion, efallai y bydd yn briodol i arolygiadau gael eu cynnal gan ddau swyddog. Dylid barnu pob ymweliad gorfodi ar sail ei ffeithiau a'i amgylchiadau arbennig ei hun, a dylai swyddogion gorfodi fynd ati'n barhaus i asesu'r risgiau yn ystod yr ymweliad.

Dylai swyddogion gorfodi fod yn ymwybodol o bolisïau awdurdodau lleol o ran gwylio mannau a ddefnyddir gan blant, fel meysydd chwarae. Rhaid rhoi unrhyw ddulliau diogelu angenrheidiol ar waith i amddiffyn diogelwch a phreifatrwydd plant ynghyd â diogelwch y swyddogion gorfodi.

Gellir esbonio'r dull a argymhellir trwy droi at yr opsiynau gorfodi ffurfiol sydd ar gael, a nodir yn Ffigur 2, a'r senarios yn Atodiad III. Pan fo modd cyfiawnhau'r arfer o gymryd camau gorfodi, rhagwelir y bydd y swyddog yn delio â'r sefyllfa trwy gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig pan fo'r opsiwn hwn ar gael. Dim ond yn achos y troseddau mwyaf difrifol, troseddau mynych a throseddau'n ymwneud â methu ag atal smygu mewn man di-fwg y dylid cymryd camau cyfreithiol. Pan gaiff camau cyfreithiol eu hystyried, yn ôl pob tebyg bydd hyn yn dilyn hanes o ddiffyg cydymffurfio a bydd yn arwydd bod y camau'n cael eu dwysáu.

# 7. Asesu Cydymffurfiaeth

## Cydymffurfio mewn mangreoedd di-fwg

Bydd swyddogion gorfodi'n cynnal asesiad i weld a yw perchnogion, meddianwyr, rheolwyr, neu unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am reoli mangreoedd di-fwg wedi cymryd 'camau rhesymol' i atal pobl rhag smygu. Bydd y rhagofalon yn cynnwys cyfuniad o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol penodol (**mewn testun trwm**) a gweithgareddau a gaiff eu hystyried yn arferion da gan sefydliadau wrth ddangos eu bod yn cymryd camau rhesymol (*mewn testun italig*).

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyngor a chanllawiau i'w cael yn ymwneud â'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth ofynion Deddf 2017 a Rheoliadau 2020 a sut gellir sicrhau cydymffurfiaeth. Mae copïau o'r canllawiau, ynghyd â thempledi o'r arwyddion, i'w cael ar **llyw.cymru/ysmygu** a gellir anfon ymholiadau penodol at **PolisiTybaco@llyw.cymru**

Bydd y swyddogion yn asesu cydymffurfiaeth ar sail y materion canlynol:

## Arwyddion ar gyfer y fangre

- **Dylid arddangos arwyddion 'Dim Smygu' mewn lle amlwg wrth neu gerllaw pob mynedfa i fangreoedd di-fwg.**
- **Arwyddion sydd naill ai'n dangos darlun graffig o sigarét yn llosgi neu ddarlun graffig o sigarét yn llosgi gyda thestun rhybudd priodol, fel y bo'n briodol.**

*Er mwyn osgoi dryswch, argymhellir y dylai unrhyw hysbysiadau ychwanegol yn y fangre ddilyn yr un cynllun â'r rhai sy'n ofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth, gan gydymffurfio â'r un meini prawf.*

*Dylai adeiladau Ysbytai, Unedau Iechyd Meddwl ac Ysgolion arddangos arwyddion wrth allanfeydd eu hadeiladau yn rhoi gwybod i'r defnyddwyr fod y tir maent ar fin mynd arno yn ddi-fwg.*

*Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn briodol gwneud defnydd rheolaidd o gyhoeddiadau diogelwch/gwybodaeth yn rhoi gwybod i'r cyhoedd na chânt smygu o fewn y fangre, e.e. gorsafoedd trenau a bysiau, meysydd awyr.*

## Blychau llwch

*Ni ddylid cael blychau llwch neu lestri o'r fath mewn mangreoedd di-fwg, ond gellir eu gosod y tu allan i'r fangre er mwyn i smygwyr allu diffodd eu sigaréts cyn mynd i mewn.*

## Mesurau Rheoli ar gyfer Rheolwyr

**Cadw cofnodion – dylai'r rhai sy'n rheoli tiroedd ysbytai a thiroedd ysgolion â llety preswyl gadw cofnodion o leoliad Mannau Dynodedig, ynghyd â'r grwpiau o bobl a gaiff eu dynodi'n 'bersonau â chaniatâd', sef pobl a all ddefnyddio'r Mannau Dynodedig. Ymhellach, dylid cadw cofnod o unrhyw newidiadau a wneir i'r Mannau Dynodedig neu'r personau â chaniatâd.**

*Argymhellir y dylai'r rhai sy'n rheoli mangreoedd di-fwg wneud y canlynol:*

- *Llunio polisi di-fwg (ar ffurf ysgrifenedig yn ddelfrydol).*

- *Llunio gweithdrefn ar gyfer delio â phobl sy'n smygu (ar ffurf ysgrifenedig yn ddelfrydol).*
- *Cyfleu'r polisi i'r staff a'r cyhoedd pan fo hynny'n briodol, a sicrhau bod fersiwn ysgrifenedig ar gael iddynt.*
- *Cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac arddangos gwybodaeth am y gofynion di-fwg mewn mannau mae'r cyhoedd yn gallu mynd iddynt (tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a ddefnyddir ar y cyd, mannau chwarae cyhoeddus), gan fynd ati i esbonio'r polisi.*
- *Cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad a'i ganlyniad pan fydd aelod o staff yn mynd at unigolyn sy'n smygu o fewn y fangre i sôn wrtho am y ddeddfwriaeth smygu.*

**Polisïau a gweithdrefnau di-fwg**

*Argymhellir yn gryf y dylai perchnogion a phobl sy'n rheoli mangreoedd lunio a gweithredu polisi ysgrifenedig, ynghyd â gweithdrefnau cysylltiedig, er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.*

*Dylai'r gweithdrefnau gynnwys eitemau tebyg i'r canlynol:*

1. *Tynnu sylw'r person at yr arwyddion 'Dim Smygu' yn yr ardal neu wrth y brif fynedfa, gan roi gwybod i'r person ei fod yn cyflawni trosedd trwy smygu. Gofyn yn gwrtais iddo roi'r gorau i smygu.*
2. *Cyfeirio'r person at y lle agosaf y gall smygu'n gyfreithlon.*
3. *Rhoi gwybod i'r person sy'n smygu y gallai'r ffaith ei fod yn smygu arwain at erlyn a dirwyo'r sawl sy'n gyfrifol am reoli'r fangre, ac y gallai'r ddirwy honno fod hyd at £2,500.*
4. *Gwrthod darparu gwasanaeth i'r person, pan fo gwasanaeth yn cael ei gynnig.*
5. *Pe bai'r person yn parhau i smygu, gofyn iddo adael y fangre neu'r tir.*
6. *Pe bai'r person yn gwrthod gadael, rhoi gweithdrefnau arferol yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/ ymddygiad anghyfreithlon ar waith yn y fangre.*
7. *Cadw cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiad a'r canlyniad.*
8. *Pe bai'r person sy'n smygu yn bygwth defnyddio trais corfforol, dylid ceisio cymorth gan yr Heddlu. Ni ddisgwylir i aelodau o staff fynd y tu hwnt i weithdrefnau arferol eu cyflogwr ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, na rhoi eu diogelwch personol yn y fantol.*

*Dylai'r polisi nodi enwau'r rheolwyr a/neu'r staff a chanddynt gyfrifoldeb dros weithredu ac adolygu'r polisi.*

**Staff**

*Dylai cyflogwyr a rheolwyr mangreoedd di-fwg sicrhau bod pob aelod o'u staff, yn cynnwys aelodau newydd o staff, yn ymwybodol o'r polisi dim smygu. Dylai'r holl staff sy'n gweithio mewn mangreoedd di-fwg wybod pa aelod o staff neu pa reolwr yw'r 'person cyfrifol' ar gyfer delio â phobl sy'n smygu.*

*Dylai'r rhai sy'n rheoli tiroedd ysbytai neu diroedd ysgolion sicrhau bod pawb yn gwybod pa grwpiau o bobl sydd wedi'u dynodi'n 'bersonau â chaniatâd', a dylent adolygu aelodaeth y grŵp hwnnw'n rheolaidd.*

**Cofnodi Digwyddiadau**

*Er mwyn gallu cynnig amddiffyniad bod 'camau rhesymol' wedi'u cymryd, ac er mwyn gallu cyflwyno tystiolaeth o hyn, dylai pob mangre gadw cofnod o ddigwyddiadau a chanlyniadau. O ran y canlyniadau, fe allent gynnwys cais syml lle gofynnir i'r person adael neu fe allent olygu gwahardd y person rhag mynd ar y fangre.*

*Dim ond ar ôl methiannau mynych i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth y dylid ystyried erlyn perchnogion, rheolwyr neu bobl a chanddynt reolaeth dros y fangre. Dim ond yn achos tramgwyddau difrifol a mynych y dylid gwneud hyn, a pha bryd bynnag y bo modd dylid defnyddio dull addysgol, heb unrhyw wrthdaro.*

## Cydymffurfio mewn cerbydau di-fwg

Mae geiriad y dyletswyddau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth mewn cerbydau di-fwg fwy neu lai yr un fath â'r geiriad ar gyfer mangreoedd di-fwg, ond mae'r camau ymarferol o ran sicrhau ac asesu cydymffurfiaeth yn wahanol. Bydd yn rhaid i swyddogion gorfodi gynnal asesiad i weld a yw'r gyrrwr, y perchennog neu'r person perthnasol wedi cymryd 'camau rhesymol' i atal pobl rhag smygu yn y cerbyd.

Fel uchod, mae'r camau hyn yn cynnwys cyfuniad o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol penodol (**mewn testun trwm)** a gweithgareddau a gaiff eu hystyried yn arferion da gan sefydliadau wrth ddangos eu bod yn cymryd camau rhesymol (*mewn testun italig*). Cynghorir y swyddogion i asesu cydymffurfiaeth ar sail y materion canlynol.

## Arwyddion ar gyfer cerbydau

**Dylid arddangos arwyddion 'Dim Smygu' mewn lle amlwg yn yr holl adrannau o'r cerbyd a orchuddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan do, yn cynnwys adran y gyrrwr.**

**Rhaid i'r arwyddion hyn gynnwys y darlun graffig.**

### Polisi Rheoli Gweithredwyr

*Dylai gweithredwyr lunio polisi di-fwg yn nodi trefniadau'r cwmni o ran cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Bydd y polisi hwn yn amrywio, gan ddibynnu ar natur a maint y busnes.*

*Dylai Gweithredwyr Llogi Preifat roi gwybod i'w cwsmeriaid ar yr adeg y gwneir y trefniant na chaniateir smygu yn y cerbyd. Dylai gyrwyr Cerbydau Hackney a gyrwyr sy'n defnyddio cerbydau preifat i ddarparu gwasanaeth (gweithwyr gofal, gyrwyr gwirfoddol sy'n mynd â phobl i'r ysbyty ac ati) ofyn i'r cwsmeriaid/defnyddwyr sy'n ceisio mynd i mewn i'r cerbyd ddiffodd eu sigaréts cyn mynd i mewn, a dylent wrthod eu gadael i mewn i'r cerbyd pe bai raid. Dylai'r gyrrwr ddilyn polisi'r cwmni ar gyfer ymddygiad afreolus neu wrthgymdeithasol pe bai'r sefyllfa'n parhau. Pe bai'r cwsmer/defnyddiwr yn tanio sigarét yn ystod y siwrnai, dylai'r gyrrwr stopio'r cerbyd pan fydd hi'n ddiogel iddo wneud hynny a gofyn i'r cwsmer/defnyddiwr ddiffodd y sigarét neu adael y cerbyd.*

*Pan gaiff cyhoeddiadau diogelwch/gwybodaeth eu cyflwyno i'r teithwyr, dylai'r rhain ddweud ei bod hi'n anghyfreithlon smygu yn y cerbyd.*

### Ymyriad a diogelwch y gyrrwr

Yn achos bysiau a choetsys, cydnabyddir y bydd gyrrwr y bws yn y 'rheng flaen' o ran delio â phroblemau posibl yn ymwneud ag unigolion yn smygu ar fysiau, a hefyd o ran delio â chwynion gan gyd-deithwyr. Bydd gan staff trenau, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â diogelwch a threfn, rôl debyg.

- Ni ddylid disgwyl i'r gyrrwr adael adran y gyrrwr.
- Pan fydd yna wrthdaro posibl rhwng diogelwch ar y ffyrdd/rheilffyrdd a chyflawni dyletswyddau di-fwg, dylai diogelwch gael y lle blaenaf.

- Pe bai teithiwr yn ceisio mynd ar y cerbyd ac yntau'n smygu, dylai'r gyrrwr a/neu'r person perthnasol arall ofyn i'r teithiwr diffodd y sigarét a gwrthod ei adael i mewn i'r cerbyd pe bai angen.
- Gellir datrys unrhyw ddigwyddiadau ar y cerbyd mewn modd anffurfiol. Dylai'r gyrrwr a'r person perthnasol arall gymryd camau rhesymol i fynnu bod y teithiwr naill ai'n rhoi'r gorau i smygu neu'n gadael y cerbyd, yn unol â gweithdrefn y cwmni ar gyfer delio â theithwyr afreolus neu wrthgymdeithasol.

Dylid gwneud cofnod o'r holl ddigwyddiadau a'u hanfon at y sawl sy'n gyfrifol am reoli gweithdrefn smygu'r cwmni, fel y gellir eu cofnodi. Pan ddefnyddir Teledu Cylch Cyfyng, a phan fo'r Teledu Cylch Cyfyng wedi recordio'r digwyddiad, dylid chwilio am y darn hwnnw o ffilm a'i gadw.

**Contractau ysgolion**

*Yn achos gweithredwyr bysiau/coetsys sydd â chontractau ag Awdurdodau Addysg, dylent gofnodi digwyddiadau yn yr un modd â gweithredwyr preifat. Dylid rhoi'r un weithdrefn ar waith ar gyfer ymddygiad afreolus neu wrthgymdeithasol.*

*Dylid ystyried tynnu'r gwasanaeth yn ôl oddi ar ddisgybl sy'n gwrthod cydymffurfio, yn enwedig pan fydd hyn yn digwydd yn fynych.*

# 8. **Camau Gorfodi**

Mae'r opsiynau gorfodi canlynol ar gael i swyddogion gorfodi:

1. Cyngor llafar.
2. Rhybudd ysgrifenedig.
3. Hysbysiad Cosb Benodedig – Adran 5(1) ac 17(5) Deddf 2017 (gweler yr adran troseddau).
4. Camau erlyn. Gellir defnyddio'r opsiwn gorfodi hwn ar gyfer yr holl droseddau, ond dyma'r unig opsiwn gorfodi ar gyfer troseddau dan Adran 6 Deddf 2017 (gweler yr adran gorfodi).

Rhaid i'r holl gamau a gymerir fod yn deg, yn gymesur ac yn gyson.

Dylai camau gorfodi fod yn bragmataidd a dylent gael eu seilio ar yr adnoddau gorfodi sydd ar gael. Oherwydd hyn, dylai'r camau cyntaf ganolbwyntio ar berchennog y fangre neu'r sawl sy'n rheoli'r fangre, gan mai'r person hwnnw sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth. Os bydd y perchnogion neu'r rhai sy'n rheoli'r fangre yn hunanreoleiddio'u mangre, mae'n debygol y bydd yr unigolion sy'n defnyddio'r fangre yn cydymffurfio.

Er mwyn sicrhau cysondeb, argymhellir y dylai pob awdurdod lleol ddilyn y dull gorfodi yn Ffigur 2 (isod).

Dim ond pan fo'r sawl sy'n rheoli neu sy'n gysylltiedig â rheoli'r fangre yn gallu dangos ei fod wedi cymryd camau rhesymol i atal unigolion rhag smygu yn ei fangre y dylai awdurdodau lleol ystyried cymryd camau yn erbyn unigolion sy'n smygu mewn mangre lle na chaniateir smygu (e.e. cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig). (I gael arweiniad ar 'gamau rhesymol', gweler Rhan 7.) Dylai'r swyddogion fod yn ochelgar rhag cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i smygwyr unigol ar hap, a hynny oherwydd y risgiau posibl a allai ddod i ran iechyd a diogelwch y swyddogion eu hunain pe baent yn cymryd camau o'r fath.


Pe bai angen, dylai awdurdodau lleol ystyried targedu unigolion fel rhan o ymgyrch wedi'i threfnu ymlaen llaw ar y cyd â'r heddlu neu gyda staff diogelwch a gyflogir gan y fangre, e.e. staff diogelwch ysbytai. Dylid trefnu ymgyrchoedd o'r fath ymlaen llaw er mwyn sicrhau y bydd y gwaith ymgyrchu'n cyd-daro ag argaeledd adnoddau'r heddlu neu'r staff diogelwch, a fydd wrth law i gynnig cymorth pe bai angen. Dylai'r ymgyrch ganolbwyntio ar y mangreoedd lle dangoswyd bod yr holl ragofalon cyfrifol wedi'u cymryd, ond lle mae'r camau hyn wedi methu â rheoli rhai unigolion arbennig. Dylai ymgyrchoedd o'r fath dargedu mangreoedd y cwynodd y cyhoedd yn eu cylch, oherwydd bydd methu ag ymdrin ag achosion mynych o dorri'r rheoliadau yn arwain at golli hyder yn y broses orfodi, a bydd yn tanseilio diben y ddeddfwriaeth.

Pe bai'r swyddogion yn dymuno cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i unigolyn sy'n gwrthod rhoi ei enw a'i gyfeiriad, dylai'r swyddog roi gwybod i'r person hwnnw y gallai gwrthod rhoi'r wybodaeth fod yn gyfystyr â throsedd dan Adran 24 Deddf 2017, gan ddibynnu ar y drosedd mae'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn ymwneud â hi, trwy fethu â chyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i'r swyddog. Yn ymarferol, efallai y bydd hi'n anodd erlyn trosedd o'r fath, oni bai y gellir cael gafael ar dystiolaeth dderbyniadwy trwy fodd arall yn ymwneud ag enw a chyfeiriad y person. Mewn achosion pan fydd yr anallu i adnabod y troseddwr yn tanseilio'r broses gydymffurfio, dylid ystyried trefnu cymorth gan yr heddlu.

Pe bai'r sawl sydd wedi cael Hysbysiad Cosb Benodedig yn ceisio gadael, gellir ystyried dilyn y person hwnnw i'w gartref, i'w gar neu i leoliad arall lle gellir ei adnabod (i'r graddau y bydd hynny'n ymarferol ac yn cyd-fynd â diogelwch y swyddog ei hun). Fodd bynnag, dylai'r farn fwy pragmataidd gael y lle blaenaf – h.y. mae'r ffaith fod y person wedi gadael y fangre wedi arwain at ddod â'r achos o smygu i ben yn llwyddiannus – ac ni fydd yn rhaid cymryd unrhyw gamau pellach.

Wrth fynd i'r afael â gwaith gorfodi, dylai swyddogion geisio lleihau unrhyw wrthdaro â phobl sy'n smygu. Pe bai sefyllfa'n ymwneud â threfn gyhoeddus yn datblygu, a phe bai angen help yn syth, dylai'r swyddog gorfodi gysylltu â'r heddlu i gael cymorth.

**Ffigur 2: Y dull gorfodi a argymhellir**



## Y dull gorfodi mewn perthynas â cherbydau di-fwg

Mae'r un egwyddorion ag a nodir ar gyfer mangreoedd yn berthnasol i gerbydau di-fwg. Caiff y canllawiau penodol canlynol eu darparu ar gyfer swyddogion gorfodi.

## Cwynion a dderbynnir gan awdurdodau lleol

Pe bai'r awdurdod lleol yn cael cwynion gan y cyhoedd ynglŷn â smygu mewn cerbydau di-fwg, dylai'r swyddog gorfodi gysylltu â gweithredwr y cerbyd i drafod y broblem.

Yn ystod y cam hwn dylid trafod polisi smygu gweithredwr y cerbyd a'r trefniadau a roddir ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth. Dylid anfon llythyr at y gweithredwr yn cadarnhau unrhyw fesurau y cytunwyd arnynt neu unrhyw fesurau mae angen rhoi sylw iddynt.

## Cwynion/digwyddiadau a gofnodir gan weithredwr y cerbyd

Os yw'r gweithredwr wedi cofnodi nifer o ddigwyddiadau/cwynion yn ymwneud â gwasanaeth arbennig, dylid neilltuo 'Arolygwyr Diogelu Refeniw' y gweithredwr ei hun i weithio ar y gwasanaeth er mwyn monitro a datrys y mater. Pe na bai hyn yn gweithio, dylid cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol.

Pe bai'r digwyddiadau'n dilyn patrwm amlwg, e.e. ar adegau arbennig o'r dydd, gall yr awdurdod lleol drefnu gweithgarwch gorfodi ar y llwybr dan sylw yn ystod yr adeg arbennig honno, er mwyn ceisio dod o hyd i'r troseddwr/troseddwyr. Os bydd Teledu Cylch Cyfyng i'w gael, efallai y bydd o gymorth.

Pe bai anhrefn neu drais yn bosibilrwydd, efallai y bydd y Swyddogion Gorfodi yn dymuno cysylltu â'r heddlu lleol neu â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

## Camau Ffurfiol

Bydd y Swyddog Gorfodi yn ystyried cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i weithredwyr/gyrwyr mewn achosion pan na fydd camau anffurfiol wedi gweithio a phan fo gofynion y ddeddfwriaeth yn parhau i gael eu torri. Gellir cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i deithwyr os bydd y swyddog awdurdodedig wedi gweld trosedd. Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried cymryd camau cyfreithiol, gan ddibynnu ar natur yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r drosedd.

Pan fydd gyrwyr/gweithredwyr wedi dilyn y dull cydymffurfio a nodir yn Rhan 7, efallai y bydd y swyddogion gorfodi o'r farn fod y gyrwyr/gweithredwyr hynny wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth. Yn amodol ar amgylchiadau penodol yr achos, byddai unrhyw gamau ffurfiol a gymerir wedyn yn cael eu hanelu at y smygwr.

# 9. **Protocol cwyno**

Nod y protocol hwn yw cynnig canllawiau ynglŷn â sut i ddelio â chwynion y bydd awdurdodau lleol yn eu derbyn, sef cwynion yn ymwneud â smygu. Efallai y bydd swyddogion gorfodi neu staff gweinyddol yn derbyn cwynion, yn cynnwys cwynion dienw. Dylai'r staff hyn gofnodi'r manylion perthnasol a mynd ati wedyn i gyfeirio'r achos at y swyddog gorfodi perthnasol. Pe bai angen eglurhad, dylai'r swyddog gorfodi roi gwybod i'r achwynydd am bolisi'r awdurdod lleol o ran datgelu manylion personol..

## Ymchwilio i'r gŵyn

1. Bydd y swyddog gorfodi'n asesu natur y gŵyn.
2. Os bernir mai ymholiad yw'r gŵyn, dylai'r swyddog gorfodi roi cyngor a chyfeirio'r person at fwy o wybodaeth, fel polisi gorfodi'r awdurdod lleol neu daflenni'n sôn am y gwaharddiad.
3. Ar sail natur y gŵyn, hanes y fangre a'r math o fangre sydd dan sylw, efallai y bydd y swyddog gorfodi'n cynnal ymchwiliad a/neu'n cymryd camau priodol eraill, e.e. rhybudd llafar, gwybodaeth/cyngor ac ati.
4. Dylai ymchwiliadau a gyfyd o gwynion gael blaenoriaeth mewn rhaglenni gorfodi deddfwriaeth ddi-fwg.
5. Pan wyddys pwy yw'r achwynydd, dylai'r swyddog gorfodi roi gwybod iddo fod ymchwiliad wedi cael ei gynnal i'w gŵyn a bod camau priodol wedi'u cymryd.
6. Dylai'r swyddog gorfodi lenwi'r cofnod ar gyfer y gŵyn, ei gadarnhau, a mynd ati i ddiweddaru'r gronfa ddata briodol.
7. Dylid cadw'r cofnod hwn, ynghyd ag unrhyw gopïau o ohebiaeth, yn unol â pholisi diogelu data a dargadw'r awdurdod lleol.

# Atodiad 1: **Diffiniadau**

At ddibenion y gwaith o orfodi Pennod 1 Rhan 3 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, caiff y termau canlynol eu diffinio fel a ganlyn:

**'Smygu'** (gweler Adran 4 o Ddeddf 2017): mae cyfeiriadau at smygu yn golygu smygu tybaco neu unrhyw beth sy'n cynnwys tybaco, neu smygu unrhyw sylwedd arall: ac mae smygu'n cynnwys bod â thybaco wedi'i danio neu unrhyw beth sy'n cynnwys tybaco wedi'i danio yn eich meddiant, neu bod ag unrhyw sylwedd arall wedi'i danio ac ar ffurf y gellir ei smygu yn eich meddiant.

**'Caeedig', 'sylweddol gaeedig' a 'nad ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig'** (Pennod 1 Rhan 3 Deddf 2017, Rheoliad 3 o Reoliadau 2020)

Bydd mangreoedd, neu rannau o fangreoedd, yn gaeedig os oes ganddynt nenfwd neu do, ac os ydynt yn gwbl gaeedig, naill ai'n barhaol neu dros dro, ar wahân i ddrysau a ffenestri a choridorau.

Mae mangreoedd, neu rannau o fangreoedd, yn sylweddol gaeedig os oes ganddynt nenfwd neu do, ac os yw unrhyw agoriadau yn y waliau'n cyfateb i lai na hanner cyfanswm arwynebedd y waliau, yn cynnwys strwythurau eraill sy'n gweithredu fel waliau ac sy'n ffurfio perimedr y fangre. Wrth gyfrifo cyfanswm arwynebedd unrhyw agoriadau, ni ddylid ystyried agoriadau lle ceir drysau, ffenestri neu ffitiadau eraill y gellir eu hagor a'u cau.

Mangreoedd neu rannau o fangreoedd 'nad ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig' – dyma fangreoedd nad ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig fel y nodir uchod.

Mae cerbyd, neu ran o gerbyd, yn gaeedig os oes ganddo do ac os yw'n hollol gaeedig, naill ai'n barhaol neu dros dro, ar wahân i ddrysau a ffenestri.

Mae 'to' yn cynnwys unrhyw strwythur neu ddyfais sefydlog neu symudadwy sy'n gorchuddio'r fangre neu'r cerbyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar ffurf to.

**'Mangreoedd di-fwg':** mangreoedd caeedig neu sylweddol gaeedig yw'r rhain, a hefyd:

- maent ar agor i'r cyhoedd, neu
- cânt eu defnyddio fel gweithle gan fwy nag un person neu maent yn lleoedd y gallai'r cyhoedd fynd iddynt i geisio neu dderbyn nwyddau neu wasanaethau gan y person neu'r personau sy'n gweithio yno.

**'Ar agor i'r cyhoedd':** (gweler Adran 8 o Ddeddf 2017) mae mangreoedd 'ar agor i'r cyhoedd' os yw'r cyhoedd neu ran arbennig o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad iddynt, pa un a fydd hynny trwy wahoddiad ai peidio, a pha un a fydd yn golygu talu ai peidio.

**'Gweithleoedd':** (gweler Adran 7 o Ddeddf 2017) mae'n cynnwys gwaith gwirfoddol.

**'Cerbydau di-fwg':** (gweler Rheoliad 15 Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020) mae hyn yn golygu cerbydau neu rannau o gerbydau sy'n gaeedig ac a ddefnyddir:

- I gludo'r cyhoedd neu ran arbennig o'r cyhoedd (pa un a fydd hynny am dâl neu ar log, ai peidio).
- At ddibenion gwaith gan fwy nag un person (hyd yn oed os bydd y bobl dan sylw yn gweithio ar wahanol adegau, neu'n ysbeidiol yn unig).

- Yn gyfan gwbl neu'n bennaf i wneud gwaith am dâl neu waith gwirfoddol ac a ddefnyddir gan fwy nag un person (hyd yn oed os bydd y bobl dan sylw yn eu defnyddio ar wahanol adegau neu'n ysbeidiol), neu i gludo'r cyhoedd. Rhaid i'r cerbyd fod yn ddi-fwg drwy'r amser.
- Yn ystod gwaith am dâl neu waith gwirfoddol pan fydd mwy nag un person yn bresennol yn y cerbyd a phan fydd un o'r personau hynny'n bresennol er mwyn derbyn nwyddau neu wasanaethau gan y sawl sy'n defnyddio'r cerbyd.
- At ddibenion cymdeithasol, dibenion domestig neu ddibenion preifat o fath arall, pan fydd mwy nag un person yn bresennol yn y cerbyd a phan fydd un o'r personau hynny'n blentyn. Dim ond pan gaiff y cerbyd ei ddefnyddio yn y modd a nodir y bydd yn rhaid iddo fod yn ddi-fwg.

**'Cerbyd preifat':** (gweler Rheoliad 15 Rheoliadau 2020) mae'n golygu cerbyd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion preifat y sawl sy'n berchen arno neu'r sawl sydd â hawl i'w ddefnyddio heb i'r hawl honno ddeillio o daliad neu ymrwymiad i dalu am ddefnyddio'r cerbyd neu ei yrrwr am siwrnai arbennig.

**'Ysbyty':** (gweler rheoliad 11 Rheoliadau 2020) mae i 'ysbyty' yr ystyr a nodir yn adran 206 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac mae Uned Iechyd Meddwl yn syrthio o fewn yr un diffiniad.

**'Uned Iechyd Meddwl':** fe'i diffinnir ymhellach fel sefydliad neu ran o sefydliad â'r prif ddiben o ddarparu triniaeth neu wasanaeth nyrsio (neu'r ddau) i berson sy'n dioddef o anhwylder meddyliol fel y'i diffinnir gan adran 1(2) Deddf Iechyd Meddwl 1983.

**'Cartref Gofal i Oedolion':** mae'n cyd-fynd â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 sy'n nodi bod 'gwasanaeth cartref gofal' yn darparu llety, ynghyd â gwasanaeth nyrsio a gofal i bobl mewn mannau yng Nghymru ar sail eu bregusrwydd neu eu hangen.

**'Hosbis i Oedolion':** (gweler Rheoliad 6 Rheoliadau 2020) mae'n golygu sefydliad sy'n anelu'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddarparu gofal lliniarol i bobl 18 oed a hŷn sy'n preswylio yno ac sy'n dioddef o glefyd cynyddol yn ei gamau olaf.

**'Man Dynodedig':** (gweler Rheoliadau 10(2) ac 11(2) Rheoliadau 2020) mae'n golygu man lle caniateir smygu, ac o'r herwydd ni ddylid ei drin fel man di-fwg at ddibenion y Rheoliadau..

**'Person(au) â chaniatâd':** (gweler Rheoliadau 10(3) ac 11(3) Rheoliadau 2020) mae'n golygu personau neu ddisgrifiadau o bersonau a bennir gan y sawl sydd wrth y llyw neu'r sawl sy'n rheoli tiroedd ysbytai neu diroedd ysgolion di-fwg fel rhai a chanddynt hawl i smygu mewn 'Man Dynodedig'; ond ni all personau o'r fath gynnwys plant.

# Atodiad 2: **Eithriadau**

Mae Adran 16 o Ddeddf 2017 yn galluogi smygu y tu mewn i rai mannau.

Mae Rheoliadau 4-11 Rheoliadau 2020 yn nodi'r mangreoedd neu'r rhannau o fangreoedd a gaiff eu heithrio o ofynion di-fwg y ddeddfwriaeth.

## Anheddau neu rannau o anheddau (Rheoliad 4)

Bydd yn ofynnol i fwy o anheddau a ddefnyddir fel gweithleoedd am beth o'r amser fod yn ddi-fwg. Dim ond yn y rhannau a ddefnyddir fel gweithle, ac yn ystod y cyfnod y cânt eu defnyddio fel gweithle, y bydd yn ofynnol i'r mannau hyn fod yn ddi-fwg. Caiff anheddau neu rannau o anheddau eu trin fel anheddau di-fwg:

1. Os cânt eu defnyddio fel gweithle. Os yw'r annedd gyfan yn weithle, rhaid i bob rhan ohoni fod yn ddi-fwg; os mai rhan o'r annedd yn unig sy'n weithle, rhaid i'r rhan a ddefnyddir fel gweithle fod yn ddi-fwg, ond gellir smygu yn rhannau eraill yr annedd.
2. Os caiff gwasanaeth ei ddarparu i berson sy'n byw mewn annedd (e.e. mae plymwr yn mynd yno neu mae gofalwr yn ymweld â'r annedd i ddarparu gwasanaethau), dim ond yn y rhannau o'r annedd a ddefnyddir fel gweithle, ac yn ystod y cyfnod y cânt eu defnyddio fel gweithle, y bydd yn ofynnol i'r annedd fod yn ddi-fwg. Er enghraifft, mae plymwr yn trwsio tap yn y gegin. Bydd yn ofynnol i'r gegin fod yn ddi-fwg, yn ogystal ag unrhyw rannau eraill o'r annedd y bydd y plymwr angen mynediad iddynt i wneud ei waith. Gellir smygu mewn rhan arall o'r cartref, cyn belled na fydd hynny'n digwydd yn yr ardal lle mae'r plymwr angen gweithio.
3. Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn ymweld ag annedd i geisio neu dderbyn nwyddau neu wasanaethau, rhaid i'r rhan o'r annedd lle caiff y nwyddau neu'r gwasanaethau eu darparu neu eu derbyn fod yn ddi-fwg. Mae hyn yn cynnwys e.e. swyddfeydd neu stiwdios lle rhoddir/derbynnir y gwasanaeth, a hefyd mannau eraill y gall aelodau o'r cyhoedd fynd iddynt – e.e. toiledau, mannau aros, grisiau ac ati. Er enghraifft, mae person trin gwallt yn gweithio mewn ystafell yn ei gartref sydd wedi'i throi'n salon trin gwallt. Mae'n ofynnol i'r salon ac unrhyw rannau eraill y bydd cwsmeriaid yn mynd iddynt (y cyntedd a'r ystafell ymolchi, er enghraifft) fod yn ddi-fwg yn ystod oriau gwaith y person trin gwallt. Ni fydd yn rhaid i rannau eraill yr annedd fod yn ddi-fwg, hyd yn oed os oes cwsmeriaid yn y salon. Y tu allan i oriau gwaith, gellir smygu unrhyw le yn yr annedd, yn cynnwys y rhannau hynny mae'r person trin gwallt yn eu defnyddio fel gweithle.
4. Dim ond i fannau caeedig neu sylweddol gaeedig yr annedd mae'r gofyniad di-fwg yn berthnasol, ac nid yw'n berthnasol i erddi, er enghraifft.

## Lletyau dros dro a lletyau gwyliau hunangynhwysol (Rheoliad 5)

**O 1 Mawrth 2022 –** Rhaid i letyau preswyl hunangynhwysol, e.e. bythynnod, carafannau, cabanau gwyliau ac ati, fod yn ddi-fwg tra cânt eu defnyddio fel llety gwyliau neu lety dros dro.

Os caiff y fangre ei defnyddio'n arferol gan y perchennog fel llety preswyl, ond os caiff ei gosod hefyd yn ysbeidiol fel llety gwyliau neu lety dros dro, ni fydd yn rhaid i'r fangre fod yn ddi-fwg pan gaiff ei defnyddio

gan y perchennog fel annedd, ond bydd yn ofynnol iddi fod yn ddi-fwg pan gaiff ei defnyddio fel llety gwyliau neu lety dros dro.

## Gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau (Rheoliad 9)

**Rhwng 1 Mawrth 2021 a 28 Chwefror 2022 (yn cynnwys dyddiadau hyn) –** gellir parhau i ddarparu ystafelloedd gwely lle caniateir smygu mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau, yn ddarostyngedig i ddau amod:

1. Rhaid i'r sawl sydd wrth y llyw ddynodi'r ystafell wely dan sylw yn ystafell wely lle caniateir smygu, a rhaid iddo gadw cofnod o'r holl ystafelloedd a ddynodir yn y fath fodd.
2. Rhaid i'r ystafell fodloni'r gofynion canlynol. ('Yr amod o ran adeiladwaith')
    - Mae ganddi nenfwd, ac ar wahân i ddrysau a ffenestri mae'n gwbl gaeedig o bob ochr gyda waliau solet o'r llawr i'r nenfwd.
    - Nid oes ganddi system awyru sy'n awyru i ran ddi-fwg o'r fangre.
    - Nid oes gan yr ystafell wely ddrysau nad ydynt yn cau'n fecanyddol yn union ar ôl eu defnyddio os ydynt yn agor i ardaloedd di-fwg.
    - Mae wedi'i marcio'n glir fel ystafell y caniateir smygu ynddi.

**O 1 Mawrth 2021,** bydd yr eithriad cyfyngedig hwn yn cael ei ddiddymu a rhaid i bob ystafell wely mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau fod yn ddi-fwg.

Os defnyddir rhan o westy, tŷ llety, tafarn, hostel neu glwb aelodau fel annedd (e.e. llety i stiwardiaid, llety i staff gwestai), nid oes yn rhaid i'r rhan honno fod yn ddi-fwg

## Cartrefi Gofal i Oedolion a Hosbisau i Oedolion – Rheoliad 6

**Hyd at 1 Mawrth 2021** fel eithriad i'r gofynion di-fwg gall person sy'n rheoli hosbis neu gartref gofal i oedolion ddynodi ystafell smygu y tu mewn i'r cartref neu'r hosbis.

Erys yr eithriad, ond mae Rheoliad 9 yn cyflwyno dau amod:

1. Dim ond at ddefnydd preswylwyr dros 18 oed y gall y sawl sy'n rheoli'r cartref gofal i oedolion neu'r hosbis i oedolion ddynodi ystafell smygu. Rhaid cadw cofnod o'r holl ystafelloedd a ddynodir, a gellir tynnu'r dynodiad yn ôl unrhyw adeg.
2. Yr amod o ran adeiladwaith – gweler gwestai, tai llety ac ati uchod.

Hefyd, gellir smygu ar diroedd cartrefi gofal i oedolion neu hosbisau i oedolion, os bydd y rheolwr yn rhoi ei ganiatâd.

## Unedau Iechyd Meddwl – Rheoliad 8

Mae eithriad i'r gofynion di-fwg yn cael ei ddarparu ar gyfer yr Unedau hyn fel y gall person sy'n rheoli Uned Iechyd Meddwl ddynodi ystafell yn ystafell lle caniateir smygu o fewn yr uned.

Erys yr eithriad tan **1 Medi 2022**, ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn ofynnol i bob Uned Iechyd Meddwl fod yn ddi-fwg.

Mae rheoliad 8 yn cyflwyno dau amod yn ymwneud â dynodi ystafelloedd smygu mewn Unedau Iechyd Meddwl, a bydd yr amodau hyn mewn grym rhwng 1 Mawrth 2021 a 31 Awst 2022. Dyma'r amodau:

1. Dim ond at ddefnydd cleifion dros 18 oed y gall y sawl sy'n rheoli'r Uned ddynodi ystafell smygu. Rhaid cadw cofnod o'r holl ystafelloedd a ddynodir, a gellir tynnu'r dynodiad yn ôl unrhyw adeg.

2. Yr amod o ran adeiladwaith – gweler gwestai, tai llety ac ati uchod.

Gellir lleoli man smygu dynodedig ar dir yr Uned Iechyd Meddwl, yn amodol ar ddymuniadau'r rheolwr a pholisi'r sefydliad sy'n rhedeg yr uned.

## Cyfleusterau Ymchwil a Phrofi – Rheoliad 7

Hyd at 1 Mawrth 2021, fel eithriad i'r gofynion di-fwg gall person sy'n rheoli cyfleuster ymchwil a phrofi ddynodi ystafell o fewn y cyfleuster yn ystafell lle caniateir smygu.

Erys yr eithriad ar ôl 1 Mawrth 2021, yn ddarostyngedig i dri amod:

1. Bydd y sawl sy'n rheoli'r cyfleuster yn dynodi'r ystafell yn ystafell lle caniateir smygu, a bydd yn cadw cofnod o'r holl ystafelloedd a ddynodir.
2. Bydd yr ystafell yn cael ei defnyddio at ddibenion profion ac ymchwil yn ymwneud â'r canlynol:
    - Allyriadau smygu.
    - Datblygu cynhyrchion smygu â pherygl tân is.
    - Profi diogelwch tân y deunyddiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion smygu.
    - Datblygu cynhyrchion smygu neu gynhyrchion fferyllol a all arwain at weithgynhyrchu cynhyrchion llai peryglus ar gyfer smygu.
    - Rhaglenni rhoi'r gorau i smygu.
3. Yr amod o ran adeiladwaith – gweler gwestai, tai llety ac ati uchod.

## Tiroedd Ysgolion – Rheoliad 10

Gall ysgolion sy'n darparu llety preswyl ddynodi man ar dir yr ysgol lle caniateir smygu.

Rhaid i'r sawl sy'n rheoli'r ysgol gadw cofnod o'r holl fannau a ddynodir yn fannau smygu, ynghyd â chadw cofnod o'r 'personau â chaniatâd'. Gellir newid neu gael gwared â'r man dynodedig unrhyw adeg.

Rhaid i'r man dynodedig fodloni'r amodau canlynol ('amodau'r man dynodedig'):

- Y sawl sy'n rheoli'r fangre fydd yn pennu pwy a all ddefnyddio'r man dynodedig. Y 'personau a chaniatâd' yw'r rhain; rhaid iddynt fod dros 18 oed, a gallant gynnwys staff ac ymwelwyr.
- Ni ddylai'r man dynodedig fod yn fwy nag 8.25 metr sgwâr.
- Rhaid i'r man dynodedig fod o leiaf 10m oddi wrth unrhyw adeilad di-fwg.
- Rhaid i'r man dynodedig gael ei farcio'n glir fel man lle caniateir smygu.

Ni ddylai unrhyw adeiladwaith o fewn man dynodedig fod yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

Ni cheir unrhyw ofynion penodol o ran marcio'r man dynodedig, ar wahân i'r gofyniad i fannau o'r fath gael eu marcio'n glir.

Caiff anheddau ar diroedd ysgolion, e.e. llety ar gyfer y gofalwr, eu heithrio rhag y gofyniad i fod yn ddi-fwg.

## Tiroedd Ysbytai – Rheoliad 11

Gall ysbytai ddynodi man ar dir yr ysbyty lle caniateir smygu. Mae modd i ysbytai wrthod â gwneud hyn os mai dyna yw'r polisi lleol.

Rhaid i'r sawl sy'n rheoli tir yr ysbyty gadw cofnod o'r holl fannau a ddynodir yn fannau smygu, ynghyd â chadw cofnod o'r 'personau â chaniatâd'. Gellir newid neu gael gwared â'r man dynodedig unrhyw adeg.

Rhaid i'r man dynodedig fodloni'r amodau canlynol ('amodau'r man dynodedig'):

- Y sawl sy'n rheoli'r fangre fydd yn pennu pwy a all ddefnyddio'r man dynodedig. Y 'personau a chaniatâd' yw'r rhain, a rhaid iddynt fod dros 18 oed.
- Ni ddylai'r man dynodedig fod yn fwy nag 8.25 metr sgwâr.
- Rhaid i'r man dynodedig fod o leiaf 10m oddi wrth unrhyw adeilad di-fwg.
- Rhaid i'r man dynodedig gael ei farcio'n glir fel man lle caniateir smygu.

Ni ddylai unrhyw adeiladwaith o fewn man dynodedig fod yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

Ni cheir unrhyw ofynion penodol o ran marcio'r man dynodedig, ar wahân i'r gofyniad i fannau o'r fath gael eu marcio'n glir.

Caiff anheddau ar diroedd ysbytai eu heithrio rhag y gofyniad i fod yn ddi-fwg, ar wahân i rannau cyffredin a chyfleusterau a rennir.

# Atodiad 3: **Gwahanol Senarios**

Diben y senarios canlynol yw cynorthwyo swyddogion gorfodi i roi'r canllawiau hyn ar waith mewn sefyllfaoedd ymarferol. Dylid ystyried pob achos yn ôl ei haeddiant ei hun, ond disgwylir i swyddogion gorfodi ddilyn y dull a nodir yn y canllawiau hyn a'r senarios yma oni bai, yn eu barn broffesiynol eu hunain, y gellir cyfiawnhau defnyddio gweithdrefn amgen.

## Senario 1

Rydych wedi cael cwyn yn dweud bod perchennog tafarn leol yn caniatáu i'w gwsmeriaid smygu yn y dafarn. Hefyd, gwelwyd y perchennog yn smygu tra'r oedd yn gweini y tu ôl i'r bar. Rydych yn ymweld â'r fangre ac yn siarad gyda'r perchennog. Mae'n dweud wrthych ei fod yn anghytuno'n llwyr â'r gwaharddiad, ond mae'n gwadu ei fod wedi caniatáu i'w gwsmeriaid smygu. Does neb yn smygu ar adeg eich ymweliad, ond mae blychau llwch llawn i'w gweld. Rydych yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r perchennog.

Yn dilyn y gŵyn, rydych yn dychwelyd i'r fangre, a'r adeg honno mae cwsmeriaid yn smygu yn y fangre.

### Ystyriaethau

- Rydych wedi siarad â'r perchennog yn barod ac wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig iddo.
- Dyma'r tro cyntaf i chi weld trosedd yn y fangre.
- Roedd nifer o gwsmeriaid yn smygu yng ngŵydd y perchennog.
- Mae'r perchennog yn gwrthwynebu'r gwaharddiad yn gryf.

### Camau Gorfodi

Mae'r perchennog wedi cael rhybudd ysgrifenedig o'r blaen, ac yn amlwg roedd yn gwybod bod y gwaharddiad wedi'i dorri. Go brin y byddai'n gallu cefnogi amddiffyniad ei fod wedi cymryd camau rhesymol i rwystro pobl rhag smygu yno. Dylid ystyried cymryd camau cyfreithiol yn ei erbyn.

Siaradwch â'r cwsmeriaid, dywedwch wrthynt am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg ac esboniwch eu bod yn cyflawni trosedd. Gofynnwch am eu henwau, a dywedwch y gallent gael Hysbysiad Cosb Benodedig neu gael eu herlyn pe baent yn cael eu gweld drachefn yn smygu mewn mangre ddi-fwg.

## Senario 2

Rydych yn ymweld â siop fetio yn eich ardal. Mae hi'n rhan o gadwyn genedlaethol o siopau betio. Mae dyn mewn oed yn eistedd yn y siop, yn gwylio rasys cŵn ac yn smygu pibell. Rydych yn holi'r rheolwr pam nad yw wedi gofyn i'r cwsmer roi'r gorau i smygu, ac mae'n dweud nad oedd yn gwybod bod y ddeddfwriaeth ddi-fwg yn berthnasol i bibelli yn ogystal â sigaréts.

### Ystyriaethau

- A yw'r gadwyn genedlaethol wedi rhoi'r cyngor cywir i'w siopau?

### Camau Gorfodi

Rhowch wybod i'r rheolwr y gallai gael ei erlyn pe bai'n caniatáu smygu o unrhyw fath yn y fangre eto. Ewch ati i gadarnhau'r cyngor hwn yn ysgrifenedig. Cysylltwch â phencadlys y cwmni a/neu'r awdurdod lleol perthnasol i sicrhau bod canllawiau priodol yn cael eu cyflwyno.

Siaradwch â'r cwsmer, dywedwch wrtho am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg ac esboniwch ei fod wedi bod yn cyflawni trosedd. Gofynnwch iddo ddiffodd y bibell neu fynd y tu allan i'r fangre i smygu.

## Senario 3

Rydych yn mynd ar ymweliad rhagweithiol i glwb nos lleol. Yn ystod y nos, fe welwch rai pobl yn tanio, ond cyn gynted ag y mae goruchwylwyr y drysau yn eu gweld, mae'r goruchwylwyr naill ai'n gofyn iddynt ddiffodd eu sigaréts neu fynd allan. Mae yna ddau ddyn yn arbennig sy'n dal ati i smygu hyd nes yr aiff goruchwylwyr y drysau atynt. Maent yn diffodd eu sigaréts, ond bob awr bron mae'r un peth yn union yn digwydd eto.

### Ystyriaethau

- A yw'r rheolwyr yn gwneud popeth rhesymol o fewn eu gallu?
- Beth yw polisi'r clwb nos o ran caniatáu i bobl fynd yn ôl i mewn?
- Ymddengys fod y ddau ddyn yn tanio pan maent yn credu y byddant yn gallu osgoi cosb.

### Camau Gorfodi

Siaradwch â rheolwyr y clwb nos. Dywedwch wrthynt fod angen iddynt gymryd camau llymach yn erbyn troseddwyr parhaus; er enghraifft, os gwelir y cwsmer yn smygu fwy nag unwaith, dylid gofyn iddo adael. Rhowch y cyngor hwn ar ddu a gwyn.

Os na fydd pethau'n gwella ar ôl cadw golwg ar y sefyllfa (naill ai yn ystod y noson honno neu yn ystod ymweliadau yn y dyfodol), ystyriwch erlyn y rheolwyr am ganiatáu i bobl smygu mewn mangre ddi-fwg. Peidiwch â rhoi eich iechyd a'ch diogelwch eich hun yn y fantol, ond pan fo'n briodol rhowch wybod i'r cwsmer unigol am y ddeddfwriaeth a'r ffaith ei fod yn cyflawni trosedd. Fodd bynnag, dylai prif ffocws y camau gorfodi ganolbwyntio ar reolwyr y clwb nos.

## Senario 4

Rydych yn cynnal arolygiad hylendid bwyd dirybudd mewn clwb rygbi lleol ar brynhawn Sadwrn (sef yr unig adeg y caiff unrhyw goginio ei wneud). Ar ôl i chi gyrraedd, fe welwch un o staff y gegin yn smygu yn y coridor sy'n arwain i'r gegin.

### Ystyriaethau

- Pwy sy'n rheoli'r fangre? Mae'r clwb rygbi yn glwb aelodau preifat. Caiff ei redeg gan bwyllgor a'i reoli gan stiward.
- Efallai fod deddfwriaethau eraill yn cael eu torri hefyd, fel deddfwriaeth hylendid bwyd.

### Camau Gorfodi

Dylid tynnu sylw rheolwyr y fangre at y gyfraith a rhoi gwybod iddynt yn ysgrifenedig y gellir ystyried eu herlyn pe bai unrhyw ddiffyg cydymffurfio'n digwydd eto. Dylid rhoi gwybod i'r gweithiwr am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg ac esbonio ei fod yn cyflawni trosedd. Gan mai dyma'r tramgwydd cyntaf i'w nodi, dylai rhybudd llafar fod yn ddigonol, ond dylid cofnodi hyn ar y fangre.

## Senario 5

Rydych yn cael cwynion gan breswylydd lleol – bob tro mae hi'n teithio ar y bws 10.00pm o ganol y dref i'w chartref, mae pobl yn smygu arno. Yn ôl y preswylydd, er bod y gyrrwr o dro i dro yn gofyn i'r cwsmeriaid roi'r gorau i smygu, yn aml maent yn ei anwybyddu.

Rydych yn siarad â'r cwmni bysiau. Dywed y cwmni ei fod yn gweld y mater dan sylw yn un anodd delio ag ef. Polisi'r cwmni ar

hyn o bryd yw gofyn i'r cwsmeriaid ddiffodd eu sigaréts heb fynd i'r afael â nhw'n uniongyrchol, rhag rhoi iechyd a diogelwch y staff yn y fantol.

**Ystyriaethau**

- Cydbwyso diogelwch ar y ffyrdd ac iechyd a diogelwch y gyrrwr ar y naill law yn erbyn yr angen i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar y llaw arall.
- A oes arwyddion 'Dim Smygu' priodol wedi'u harddangos yn glir ym mhob adran?

**Camau Gorfodi**

Siaradwch â'r cwmni bysiau er mwyn dod o hyd i ateb. Fe allai hyn gynnwys defnyddio 'Arolygwyr Diogelu Refeniw' gweithredwr y cerbyd, neu fe allai swyddogion gorfodi'r awdurdod lleol ddefnyddio dull cuddwylio neu Deledu Cylch Cyfyng i ddod o hyd i'r troseddwyr.

Pe bai'r dulliau cadw gwyliadwriaeth a/neu ymchwiliad pellach yn dangos bod gweithredwr y cerbyd a'r gyrrwr yn cymryd camau rhesymol i atal smygu ar y cerbyd, ystyriwch gymryd camau penodol yn erbyn y teithwyr sy'n torri'r ddeddfwriaeth. Efallai y bydd yn rhaid cynnwys yr heddlu mewn camau o'r fath er mwyn sicrhau diogelwch swyddogion yr awdurdod lleol a'r teithwyr eraill ar y bws.

## Senario 6

Rydych yn cael cwynion gan fam ynglŷn â chyflwr maes chwarae a pharc sglefrfyrddio awyr agored yn yr ardal. Mae'r gŵyn yn ymwneud â sbwriel, yn cynnwys poteli a gwastraff sigaréts. Dywed fod ei phlant, 8 oed a 10 oed, yn defnyddio'r maes chwarae a'r parc sglefrfyrddio yn ystod y dydd, ond bod y parc yn cael ei ddefnyddio yn ystod y nos gan blant hŷn a phobl ifanc sy'n smygu ac yn yfed yno, a'u bod yn gadael eu gwastraff yn y parc.

Mae staff cynnal a chadw'r tiroedd yn gorffen gweithio am 5.30pm, er bod yr ardal lle caiff y maes chwarae a'r parc ei leoli ar agor drwy'r amser.

**Ystyriaethau**

- A oes arwyddion 'Dim Smygu' priodol wedi'u harddangos? A ydynt wedi cael eu cynnal a'u cadw?
- A oes yna ystyriaethau eraill o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol?

**Camau Gorfodi**

Siaradwch â staff cynnal a chadw'r parc i sicrhau bod biniau sbwriel yn cael eu darparu a'u gwagio'n rheolaidd, ac i sicrhau bod y gwaith o gynnal a chadw'r arwyddion 'Dim Smygu' yn cael ei gynnwys yn eu gwaith cynnal a chadw rheolaidd.

Siaradwch â'r heddlu a gofynnwch i swyddogion 'patrôl ar droed' yr heddlu ymweld â'r maes chwarae a'r parc sglefrfyrddio ar hap gyda'r nos, er mwyn sicrhau nad oes smygu (nac ymddygiad gwrthgymdeithasol o fath arall) yn digwydd yno.

Pe bai'r heddlu'n rhoi gwybod bod smygu'n digwydd yn rheolaidd, dylid ystyried anfon swyddogion gorfodi yno, gyda'r heddlu pe bai angen, i dargedu'r unigolion hynny sy'n smygu. Gellid rhoi rhybuddion, neu os oes rhybuddion wedi'u rhoi yn barod, gellid ystyried cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

## Senario 7

Mae cynghorydd lleol ar gyfer ward lle caiff ysbyty cyffredinol mawr ei leoli yn dweud ei fod wedi cael sawl cwyn ynglŷn â phobl yn smygu ar dir yr ysbyty. Mae'n dweud bod pobl wedi cael eu gweld yn smygu:

- Wrth fynedfa'r adran Damweiniau ac Achosion Brys.

- Yn yr Ardd Goffa.
- A bod cleifion a staff wedi cael eu gweld yn smygu y tu allan i brif ddrws a drws cefn yr ysbyty.

Mae'n awyddus i gamau gael eu cymryd yn ddi-oed, oherwydd mae o'r farn fod gweld pobl yn smygu ar dir yr ysbyty, yn enwedig staff mewn gwisgoedd ysbytai, yn cyfleu neges wael iawn.

**Ystyriaethau**

- Pa gamau mae'r sawl sy'n rheoli'r ysbyty wedi'u cymryd i ymdrin â'r gwaharddiad ar smygu ar dir yr ysbyty?
- A oes man(nau) smygu dynodedig priodol i'w cael ar dir yr ysbyty? Pwy yw'r 'personau â chaniatâd' a all eu defnyddio?
- A oes arwyddion i'w cael wrth allanfeydd y fangre yn rhoi gwybod na chaniateir smygu ar y tir? A oes arwyddion 'Dim Smygu' i'w cael mewn mannau lle gwelwyd pobl yn smygu?
- Pa gamau mae'r ysbyty yn eu cymryd i orfodi'r gofyniad na ddylid smygu yn unrhyw le ac eithrio'r mannau dynodedig? A oes unrhyw gamau wedi'u cofnodi, a beth oedd canlyniad y camau hynny?
- A oes yna gamau y gellid eu cymryd yn rhesymol, ond nad ydynt wedi'u cymryd eto? A oes yna resymau dros beidio â chymryd camau o'r fath?

**Camau Gorfodi**

Siaradwch â'r sawl sy'n rheoli'r ysbyty ynglŷn â'r mater. Ewch ati i ganfod a oes modd gwneud mwy i orfodi'r gofynion 'Dim Smygu', e.e. staff diogelwch mwy gweladwy, anfon llythyrau at yr holl staff ynglŷn â pheidio â smygu, a chynnig cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i smygu ac ati, yn cynnwys cyngor ynglŷn â statws di-fwg yr ysbyty a'r tir ym mhob llythyr apwyntiad.

Gwnewch yn siŵr fod y sawl sydd wrth y llyw yn gwybod bod methu ag atal smygu ar dir yr ysbyty yn drosedd ac y gellid ystyried ei erlyn. Ewch ati i gadarnhau'r cyfarfod ar ddu a gwyn, gan gadarnhau'n benodol unrhyw gamau mae'r ysbyty wedi cytuno i'w cymryd.

Pe bai'r smygu'n parhau, efallai y bydd yn rhaid i swyddogion gorfodi ddod ar y safle i rybuddio'r smygwyr eu bod yn cyflawni trosedd, yn ogystal ag ystyried cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig pa fo hynny'n briodol. Dylid ymdrin ag achosion o'r fath mewn modd sensitif, yn enwedig os yw'r smygwr yn glaf mewnol yn yr ysbyty.

Pe bai'r smygu'n parhau, a phe bai modd i'r swyddogion ddangos nad yw'r ysbyty'n cymryd camau rhesymol i'w rwystro – neu fod yna gamau rhesymol y gellid eu cymryd, ond nad ydynt wedi cael eu cymryd – dylid ystyried erlyn.

## Senario 8

Mae perchennog cwmni gofal yn y cartref yn cwyno bod un o'r preswylwyr y rhoddir gofal iddo yn smygu tra mae'r gofalwyr yn ei gartref. Mae'r gofalwyr yn mynd yno deirgwaith y dydd i roi cymorth iddo, a bellach maent yn gyndyn o fynd. Mae'r cwmni gofal wedi ysgrifennu at yr holl breswylwyr y rhoddir cymorth iddynt yn dweud na ddylent smygu tra mae'r gofalwyr yn eu cartrefi, ac y gallai'r gwasanaethau gael eu tynnu'n ôl pe baent yn gwneud hynny. Gofynnwyd i'r preswylydd beidio â smygu tra mae'r staff gofal gydag ef. Mae wedi dweud na wnaiff smygu, ond mae'n parhau i wneud hynny. Mae perchennog y cwmni gwasanaethau gofal yn dymuno tynnu'r gwasanaethau'n ôl, ond does yna ddim darparwr arall a all ddarparu'r gwasanaeth ac ni all y preswylydd fyw'n annibynnol heb help.

### Ystyriaethau

- A yw'r preswylydd yn deall y gyfraith ac yn deall na ddylai smygu pan mae'r gofalwyr gydag ef?
- A yw'n deall y goblygiadau iddo ef ei hun pe bai'n parhau i smygu – h.y. y bydd y gwasanaeth yn cael ei dynnu'n ôl, a'r effaith bosibl y gallai hynny ei chael ar ei allu i barhau i fyw'n annibynnol?

### Camau Gorfodi

Nid yw hwn yn achos lle gellir cymryd camau gorfodi yn yr ystyr draddodiadol. Gan fod y cwmni wedi rhoi gwybod i'r preswylydd beth yw'r gyfraith a'r hyn mae'n rhaid iddo'i wneud i gydymffurfio â'r gyfraith, fe fyddai gan y cwmni hawl i dynnu'r gwasanaeth a ddarperir yn ôl er mwyn diogelu iechyd ei weithwyr, ond byddai'r canlyniadau yn sgil gwneud hynny yn fawr i'r preswylydd.

Dylai'r swyddogion gorfodi geisio cymorth gan aelodau teuluol y preswylydd, os oes ganddo deulu, neu gan y gwasanaethau cymdeithasol neu ei feddyg teulu er mwyn cynghori a chefnogi'r preswylydd. Efallai y bydd yn fodlon rhoi'r gorau i smygu; ond os na fydd yn fodlon gwneud hynny, ac os na all fyw'n annibynnol pe na bai gwasanaethau gofal yn cael eu darparu, bydd yn rhaid gwneud trefniadau eraill ar ei gyfer. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r achos gael ei drosglwyddo i'r asiantaeth briodol i'w ddatrys. Nid yw'n achos y gellir pennu camau gorfodi ar ei gyfer.

## Senario 9

(Ar ôl 1 Mawrth 2022) Mae perchennog cwmni glanhau wedi derbyn cwynion gan berchennog yr eiddo yn dweud bod y bobl sy'n mynd yno ar eu gwyliau yn cwyno nad yw'r lle'n lân pan fyddant yn cyrraedd yno. Mae hi'n rhoi gwybod i'r swyddog gorfodi yr ymddengys fod rhai o ddefnyddwyr yr eiddo yn smygu yno ac mai dyma yw gwraidd y broblem. Caiff yr eiddo ei osod, ac ar y diwrnod cyfnewid mae'r cwmni glanhau yn mynd i'r eiddo i'w lanhau cyn i'r criw nesaf o bobl gyrraedd. Yn aml, gwelir sbwriel smygu (pecynnau sigaréts, stympiau sigaréts a llwch sigaréts) yn y biniau; mae arogl mwg yn yr eiddo, yn arbennig ar y llenni a'r deunyddiau; ac ymddengys fod soseri ac ati wedi cael eu defnyddio fel blychau llwch. Perchennog yr eiddo sy'n rheoli'r lle ar ei ben ei hun trwy Facebook, ac mae'n nodi ar y dudalen archebu na ddylai'r defnyddwyr smygu tra byddant yn yr eiddo. Mae perchennog y cwmni glanhau yn gyndyn o roi'r gorau i'r contract glanhau ac mae'n teimlo ei bod hi'n cael bai ar gam am weithredoedd smygwyr na ddylent fod yn smygu yn yr eiddo.

### Ystyriaethau

- A yw perchennog yr eiddo'n deall bod y bobl sy'n smygu yn ei eiddo yn torri'r gyfraith?
- A yw'r perchennog wedi cymryd pob cam rhesymol i roi gwybod na ddylai'r defnyddwyr smygu y tu mewn i'r eiddo?
- A yw'r perchennog yn cymryd unrhyw gamau yn erbyn smygwyr sydd wedi smygu yn yr eiddo e.e. mynnu eu bod yn talu mwy am lanhau'r lle, gwrthod gadael iddynt aros yno wedyn ac ati?

### Camau Gorfodi

Ewch ati i ganfod a oes pobl yn smygu yn yr eiddo trwy fonitro'r sefyllfa.

Rhowch gyngor ynglŷn â'r camau y gallai perchennog yr eiddo eu cymryd i atal y defnyddwyr rhag smygu yn yr eiddo, e.e. cryfhau'r sylwadau ar y dudalen archebu ar Facebook, defnyddio arwyddion, rhoi gwybod i'r defnyddwyr y byddant yn gyfrifol am y costau glanhau pe baent yn smygu ac ati, ac y byddant yn cyflawni trosedd pe baent yn smygu yn yr eiddo.

Os ystyrir ei bod hi'n gymesur cymryd camau, ewch ati i fonitro'r eiddo; a phe bai smygwyr yn cael eu gweld yn yr eiddo, dylech roi gwybod iddynt na ddylent smygu, neu, pe bai'r perchennog wedi cymryd camau digonol i wneud hyn yn glir iddynt, dylid cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig.

Pe bai Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu cyflwyno, rhowch wybod i berchennog yr eiddo fod hyn wedi'i wneud, oherwydd efallai y bydd yn dymuno gwrthod gadael i'r bobl dan sylw aros yn yr eiddo eto.